# Llais Ogwan

Papur Bro Dyffryn Ogwen

**Rhifyn 495 · Ionawr 2019 · 50c**


# ‘Doniau’r Dyffryn’

***Unwaith yn rhagor, profwyd y Nadolig hwn fod yna dalent cerddorol yn llifo drwy wythiennau’r Dyffryn wrth i bob rhan o’r gymdeithas gynnig llu o ddigwyddiadau yn ystod y Nadolig.***

## Hoelion Wyth y Sîn Roc Gymraeg

A Neuadd Ogwen dan ei sang ar y 27ain o Ragfyr, dyma ddau o fandiau’r Dyffryn, Celt a Maffia Mr. Huws, yn camu ar lwyfan y Neuadd a chynnig gwledd cerddorol. Clywyd amryw o glasuron y bandiau megis Celt: ‘Dros Foroedd Gwyllt’, ‘Ddim ar Gael’ a Maffia: ‘Ffrindiau’ a ‘Cysylltiad’ i enwi rhai. Clywyd y bandiau ar eu gorau, a’r dorf yn mwynhau pob eiliad o’r perfformiad. Braf oedd gweld cymaint o’r gymuned wedi cefnogi’r digwyddiad.



## “Dewch at eich gilydd a bloeddiwch ynghyd…”




Un o draddodiadau diweddar y Dyffryn yw’r Gwasanaeth Nadolig Cymunedol blynyddol a gynhelir yng Nghapel Jerusalem ar drothwy’r ŵyl.
Eleni eto, cafwyd gwledd o ganu a mawl, gyda’r adeilad urddasol yn gefndir teilwng i noson o ddathlu gwir ystyr y Nadolig.
Mwynhawyd eitemau gan ddim llai na phedwar côr - Côr y Dyffryn, Côr Meibion y Penrhyn, Côr Ysgol Dyffryn Ogwen a Chôr Adran Bentref Dyffryn Ogwen.
Yn ogystal, cafwyd eitemau cerddorol a darlleniadau hynod amserol gan gyfeillion yr Eglwys Unedig. Yn goron ar y cyfan cafwyd perfformiad cofiadwy gan y pedwar côr unedig, yn canu’r garol “Ganwyd Iesu”.
Yng nghanol bwrlwm a phrysurdeb paratoi ar gyfer yr ŵyl, atseiniodd Capel Jerusalem ar noson oer o Ragfyr gan dorf yn datgan y neges oesol, neges ddaeth â’r gymuned arbennig yr ydym yn rhan ohoni ynghyd i ddathlu:

“Rhown ein moliant uwch ei breseb,
Mae’r gogonant a ei wyneb,
Wyneb Iesu, Wyneb Iesu,
Brenin Nef.”

# Llais Ogwan


## Panel Golygyddol

**Derfel Roberts**
☎ 600965
derfel.roberts@btinternet.com

**Ieuan Wyn**
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

**Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

**Orina Pritchard**
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com

**Rhodri Llŷr Evans**
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

**Owain Evans**
☎ 07588 636259
owain.evans1@gmail.com

**Carwyn Meredydd**
☎ 07867 536102
carwynian@hotmail.com

## Swyddogion

**Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trefnydd hysbysebion:**
Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA ☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd:**
Gareth Llwyd, Talgarnedd, 3 Sgwâr Buddug, Bethesda LL57 3AH ☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd:**
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y Llais drwy'r post:**
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com


## Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan Owain Evans.

Y golygyddion ym mis Chwefror fydd Walter a Menai Williams, 14 Erw Las, Bethesda, LL57 3NN. (01248 601167)
E-bost: waltermenai@yahoo.co.uk

Pob deunydd i law erbyn **dydd Mercher, 30 Ionawr** os gwelwch yn dda.

Casglu a dosbarthu **nos Iau, 14 Chwefror,** yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.

**Dalier sylw:** nid oes gwarant y bydd unrhyw ddeunydd fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad cau yn cael ei gynnwys.


Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan *y Lolfa*



Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.


**Mae Llais Ogwan ar werth yn y siopau isod:**

**Dyffryn Ogwen**
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
Select Conv, Bethesda
Siop y Post, Rachub

**Bangor**
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

**Caernarfon** Siop Richards

**Porthaethwy** Awen Menai

**Rhiwlas** Garej Beran

# Dyddiadur y Dyffryn

**Ionawr**

18 Atgofion ar Gân. Meddygfa Bethesda am 1.15 – 2.30.
18 Llety Lloerig. Panto Cwmni Drama'r Llechen Las. Neuadd Ogwen am 7.30.
19 Llety Lloerig. Neuadd Ogwen am 2.30.
23 Cyfarfod Blynyddol Eisteddfod Gadeiriol D. Ogwen. Festri Jerusalem am 7.30.
26 Bore Coffi Cronfa Goffa Tracy Smith. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
28 Te Bach. Festri Carmel. 2.30 – 4.00.
29 Plaid Cymru Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00.
30 Clwb Hanes Rachub. Neville Hughes. Festri Carmel am 7.00
31 Raffl Santes Dwynwen a Bingo St. Tegai. Neuadd Talgai am 7.00.

**Chwefror**

01 Atgofion ar Gân. Meddygfa Bethesda. 1.15 – 2.30.
02 Bore Coffi Gofalwyr Gwynedd a Môn. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
04 Merched y Wawr Tregarth. Megan Tomos. Festri Shiloh Tregarth am 7.30
07 Sefydliad y Merched Carneddi. Sgwrs - Sandra Robinson Clarke (RCN). Cefnfaes 7.00.
09 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
11 Cymd. Hanes D. Ogwen. Wyn Bowen Harris. Festri Jerusalem am 7.00.
14 Cymdeithas Jerusalem. Mr. William Owen. Festri am 7.00.
14 Noson Casglu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
15 Atgofion ar Gân. Meddygfa Bethesda. 1.15 – 2.30.

## Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £22
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

# Apêl am Wybodaeth - Eisteddfodau'r Chwarel

Fy enw i yw Dafydd Herbert-Pritchard ac rwyf yn ddisgybl yn Ysgol Dyffryn Ogwen ac yn gerddor lleol. Rwyf yn gweithio ar ran y Grŵp Llechi yn yr ysgol ac yn awyddus i wybod os oes unrhyw rai efo gwybodaeth am yr hen Eisteddfodau yng nghabannau'r Chwarel ac efo geiriau neu gerddoriaeth o'r cyfnod.

Gan fy mod i gyda diddordeb mawr mewn cerddoriaeth ac yn ymfalchïo yn hanes yr ardal, rwyf yn gobeithio defnyddio'r prosiect yma i helpu cais chwareli lleol i ddod yn Safle Treftadaeth Byd UNESCO (World Heritage Site). Y gobaith yw gallu cyfarfod pobl sydd yn gwybod am yr eisteddfodau ac yn gallu fy helpu i gael y darnau. Byddaf wedyn yn eu recordio'n broffesiynol ac yn creu EP fydd ar gael i bobl ac yn chwarae'r traciau yn lleol ac ar BBC Radio Cymru er mwyn hybu diddordeb yn ein hanes. Mae cynllun hefyd i gynnal gig yn Neuadd Ogwen a fydd yn cynnwys yr EP yma.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn helpu efo'r prosiect yma, neu efo cysylltiadau fyddai'n ddefnyddiol, fedrwch chi gysylltu efo mi trwy e-bost (14idhp@ydo.cymru) os gwelwch chi'n dda?


# Apêl am Hen Luniau

Mae Pwyllgor Rheoli Canolfan Tregarth yn chwilio am hen luniau o Dregarth, Yr Hen Orsaf a'r ardal o gwmpas y pentref i greu arddangosfa barhaol i gofnodi hanes y pentref mewn lluniau.

Os oes gennych hen luniau gwreiddiol o'r pentref neu o'r ganolfan buasem yn ddiolchgar pe baech yn cysylltu â: Peter Roberts
1 Ffrwd Galed, Tregarth
01248 602123 / 0784 257 9931
peteof1fg@btinternet.com
Diolch yn fawr iawn.

# Tîm Pêl-droed Llandygái F.C. 1911-12

**Apêl am Wybodaeth**
Dyma lun o dîm pêl-droed Llandygái a dderbyniwyd gan gyfaill o Fangor wrth glirio tŷ perthynas yn Hirael yn ddiweddar. Tybed a oes rhywun gydag atgofion neu straeon am y tîm hwn neu'n adnabod unrhyw un o'r chwaraewyr?




DILYNWCH NI AR TRYDAR

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £10.50 | Mrs. Eurwen Griffiths, Rhes Mostyn, Bethesda. |
| £4.50 | Mair Wyn, Abercaseg, Bethesda. |
| £10.00 | Er cof annwyl am Tom a fu farw 7fed Ionawr 2015. Oddi wrth Vera a'r teulu. |
| £10.00 | Elwyn a Bet Jones, Bontnewydd. |
| £10.00 | Mrs. Idanwen Moore, Bangor. |

**Diolch yn fawr.**

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

***Gwobrau Rhagfyr***

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (166) | Rhodri Williams, Gaerwen, Môn. |
| £20.00 | (106) | Beryl Hughes, Tregarth. |
| £10.00 | (103) | Gwen Ellis, Llanllechid. |
| £5.00 | (96) | Gwynfryn Davies, Caernarfon. |

**(Os am ymuno, cysylltwch â Neville Hughes – 600853)**

# Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Rhagfyr, aeth nifer o aelodau'r gangen i gyfarfod o Blaid Lafur Etholaeth Arfon yng Nghoed Mawr, yn bennaf i wrando ar araith gan Ruth Sharratt (Swyddog Addysg Wleidyddol yr etholaeth) am gynhesu byd eang, ei effeithiau a sut i'w hosgoi.

Ar hyn o bryd, nid yw ynni niwclear yn cael ei ystyried fel ynni adnewyddadwy am ei fod o'n defnyddio iwraniwm o'r ddaear, ond y mae 90% o ynni adnewyddadwy yn dod o ffynonellau solar a gwynt, ac ynni adnewyddadwy'n ateb 48% o'r galw am ynni.

Ar ôl trafodaeth ar y pwnc, cafwyd lluniaeth Nadoligaidd a nodwyd bod cyfle i aelodau ymateb i dri adroddiad; sef argymhellion terfynol Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, Democratiaeth Cynulliad Cymru a Democratiaeth Plaid Lafur Cymru.

Yn hwyrach yn y mis, aeth rhai o aelodau'r gangen i brynhawn Nadoligaidd Plaid Lafur Cangen Bangor gan gwrdd â hen gyfeillion a gwneud cyfeillion newydd.

Cynhelir bore coffi'r gangen am 10yb tan hanner dydd yng Nghanolfan Gymdeithasol Cefnfaes, Bethesda (ger y llyfrgell) ar yr ail Ddydd Sadwrn yn mis Mawrth, sef y 9[fed].

## EGLWYS UNEDIG BETHESDA LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned.
Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd

# Ysgol Tregarth

**Pantomeim**
Gan eu bod wedi ymddwyn mor dda yn ystod y tymor, bu disgyblion blynyddoedd 1 i 6 yr ysgol yn Venue Cymru, Llandudno yn gwylio pantomeim 'Cinderella' diwedd y tymor. 'Roedd hi'n bantomeim hwylus iawn, gyda llawer o dynnu coes y gynulleidfa, digon o jôcs gwirion a chanu a dawnsio gwerth chweil. Cafodd y disgyblion andros o amser da a phawb wedi mwynhau.

**Cinio Nadolig**
Diolch o galon i Anti Shirley a Anti Fiona am ein cinio Nadolig blasus. Mae'r ddwy yn gweithio'n hynod o galed drwy'r flwyddyn i wneud cinio i bawb. Cinio Nadolig llwyddiannus unwaith eto!

**Sioe Nadolig**
Cafwyd Sioe Nadolig wefreiddiol eto eleni gan ddisgyblion yr Ysgol. Cafwyd dau berfformiad yng Nghapel Shiloh Tregarth ar Ddydd Mercher, Rhagfyr 12fed. Eleni roedd Dr. Who a'r Tardis yn chwilio am y Nadolig Cyntaf, ac yn ymweld a gwahanol gyfnodau hanesyddol ar eu taith. Perfformiodd y plant i gyd yn fendigedig. Hoffem ddiolch i bawb a fu o gymorth i ni yn y paratoi, ac yn enwedig i Swyddogion y Capel am eu parodrwydd i'n croesawu bob blwyddyn.

**Cynhesu Byd Eang**
Yn ddiweddar, buodd disgyblion hynaf yr ysgol yn brysur yn ysgrifennu llythyrau ffurfiol i Bencadlys y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd fel rhan o'i gwaith thema. Yn dilyn gwaith ar gynhesu byd eang, a'r gynhadledd ddiweddar yng Ngwlad Pwyl, roedd teimladau cryf ar y pwnc ymysg y plant. Edrychwn ymlaen am eu hymateb!



# Mynydd Llandygái

**Theta Owen**, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái ☎ 600744

**Eglwys St. Ann a St. Mair**
Sul 1af a'r 3ydd: 9.30yb
Boreol Weddi
2ail a'r 4ydd: 9.30yb
Cymun Bendigaid

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Geraint Hickman, Douglas House ar ddiwedd mis Tachwedd. 'Roedd yn aelod ffyddlon o'r Eglwys ac yn barod i gynorthwyo gyda'r gwasanaethau bob amser. Bydd colled fawr ar ei ôl. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r teulu oll.

Cofiwn am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

**Cydymdeimlad a Diolch**
Cydymdeimlwn â theulu Mr. Geraint Hickman yn eu profedigaeth o golli Geraint. Diolch o galon i Geraint Saynor am ei ofal a'i garedigrwydd tuag at Geraint yn ystod ei salwch. Siopa a thorri gwair yn ogystal ag ymweld â fo yn yr ysbyty. Diolch am eich gofal!

**Adre'n ôl**
Croeso gartref i Mrs. Megan Parry, Penrhiw, yn dilyn treulio peth amser yn yr ysbyty. Gobeithio eich bod yn teimlo'n well erbyn hyn. Cofion atoch – cymerwch ofal!

**Penblwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau i Terry Hughes, Arafon, a ddathlodd ei benblwydd yn 75 oed ar y 10fed o Ragfyr.

**Blwyddyn Newydd Dda**
A honno'n llawn hapusrwydd a iechyd i chi oll!




C.L. JONES
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a Llanrwst

# Ysgol Abercaseg

**Diolch**



**Mrs. Gwenda Roberts (Canol)**
Wedi 36 mlynedd o wasanaeth, mae Mrs. Gwenda Roberts yn ymddeol o'r ysgol. Cynhaliwyd gwasanaeth ffarwel ar ei chyfer a chafwyd cyfle i hel atgofion â chyn-ddisgyblion, Penaethiaid a'r Llywodraethwyr. Diolch yn fawr i bawb a anfonodd negeseuon o ddymuniadau gorau iddi.

Dymunai Mrs. Roberts ddiolch o galon i bennaeth, staff, llywodraethwyr, disgyblion a chyn-ddisgyblion yr ysgol am y rhoddion a negeseuon a dderbynniodd yn dilyn ei hymddeoliad.

**Ymweliad â Chastell Penrhyn**
Trefnwyd ymweliad ar gyfer disgyblion blwyddyn 1 i'r Castell er mwyn gweld sut oedd y Nadolig yn cael ei ddathlu yn Oes Fictoria. Cafwyd cyfle i ddylunio cerdyn a defnyddio'r hen ffordd o stampio, creu cracer a chreu torch personol trwy ddilyn cyfarwyddiadau gweithwyr y Castell. Diolch yn fawr i'r holl staff a gwirfoddolwyr am eu cymorth.

**Ymweliad â'r Eglwys**
Braf oedd cael mynd â blwyddyn 2 am ymweliad 'sypreis' i'r Eglwys a'u hatgoffa o wir ystyr y Nadolig. Cafwyd cyfle i ail berfformio stori'r geni yn ogystal ag addurno bisgedi a chreu cardiau Nadolig. Diolch yn fawr iawn am y gwahoddiad.



**Cinio Nadolig**
Coginiodd Anti Marian wledd Nadoligaidd i bawb ar ddiwrnod olaf y tymor a diolch yn fawr iddi hi a holl staff y gegin am eu gwaith caled.

**Ymweliad PC Owain**
Cafodd plant yr ysgol syrpreis arbennig ym maes parcio'r ysgol pan ddaeth PC Owain a'i gar heddlu i bawb gael ei weld. 'Roedd y plant wrth eu boddau yn gwrando ar y seiren a chael cyfle i eistedd yn y car a gofyn cwestiynau iddo.

**Parti Siôn Corn**
Yn ystod parti Nadolig dosbarth Meithrin a Derbyn cafwyd ymwelydd annisgwyl yno. 'Roedd gwynebau'r plant yn ddigon o sioe wrth ei groesawu. Diolch Siôn Corn! Diolch i'r rhieni am gyfrannu tuag at fwyd y parti.

**Sioeau Nadolig**
Wedi wythnosau o ymarfer, perfformiodd plant meithrin eu sioe i'w rhieni yn yr ysgol. 'Roedd y neuadd o dan ei sang a phawb wedi gwirioni'n lân. Perfformiodd gweddill yr ysgol yn eu sioe nhw, Seren ar goll, yn Ysgol Dyffryn Ogwen. Diolch i'r holl blant am eu hymroddiad a'u gwaith caled, a diolch i staff Ysgol Dyffryn Ogwen. Diolchwn hefyd i'r rhieni am gyfrannu tuag at y raffl.

**PEN Y CEUNANT ISAF**

Y BWTHYN TÉ
www.snowdoncafe.com

Llwybr Yr Wyddfa
Llanberis
LL55 4UW
01286 872 606



STEPHEN JONES
TREFNWR
ANGLADDAU CYF

PEN Y BRYN BETHESDA
GWASANAETH PERSONOL
PEDAIR AWR AR HUGAIN
CAPEL GORFFWYS

BETHESDA • 01248 600455 • 07770265976
Ebost: stephenjonesfuneraldirectors@outlook.com

I hysbysebu yn **Llais Ogwan,**
**Neville Hughes** 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

# Ysgol Dyffryn Ogwen

**Eisteddfod Dyffryn Ogwen**
Bu'n eisteddfod lwyddiannus iawn i unigolion yr ysgol yn Eisteddfod Dyffryn Ogwen eleni. Llongyfarchion fil i Hannah Morgan o flwyddyn 13 am gipio Medal yr Ifanc eleni, rydym hefyd yn hynod falch o Cadi Roberts a Beca Nia a ddaeth yn ail agos iawn iddi.

Bu llenorion 7, 8 a 9 yn brysur iawn yn ogystal. Aeth y wobr gyntaf am ysgrifennu rhyddiaith i Martha Jones o flwyddyn 8, daeth Elin Lewis o flwyddyn 9 yn ail ac Osian Rowlands o flwyddyn 8 yn drydydd. Llongyfarchion fil i'r tri ohonynt a daliwch ati i gyfansoddi.

**Unawd Offerynnol**
Gwydion Rhys - cyntaf
Luned Elfyn - trydydd

**Rhaglen o Adloniant i Ysgolion Uwchradd**
Ysgol Dyffryn Ogwen - ail

**Adran Gelf**
Natalie Owen - trydydd ffotograffiaeth agored
Nia George - ail ffotograffiaeth agored
Issy Forte - trydydd arlunio blwyddyn 7 i 9
Ella Baker - enillydd Ysgoloriaeth Celf a Chynllun
Sam Thomas - cyntaf arlunio blwyddyn 7 i
Mared Rowlands - cydradd ail, arlunio blwyddyn 7 i 9
Elsie Owen - cydradd ail arlunio blwyddyn 7 i 9



*Natalie Owen, Nia George ,Issy Forte ac Ella Baker*

**Ymweliad Blwyddyn 6**
Bu holl ddisgyblion blwyddyn 6 o'r ysgolion cynradd, yn yr ysgol am ddiwrnod yn profi amrywiaeth o wersi. Da oedd clywed athrawon a disgyblion o'r ysgolion cynradd yn canmol y ddarpariaeth.

**'Teams4U'**
Dydd Mawrth, 20fed o Dachwedd, casglwyd nifer helaeth o focsys esgidiau Nadoligaidd yn yr ysgol ar gyfer yr elusen 'Teams4U' sy'n rhannu anrhegion i blant anghenus, yng ngwledydd Dwyrain Ewrop yn bennaf. Roedd pob bocs yn llawn i'r ymylon ag amrywiaeth o anrhegion yn deganau, da-da, cyfarpar ysgrifennu, llyfrau a sebonach! Sicrhaodd disgyblion blwyddyn 12 bod y bocsys yn barod i'w casglu gyda'r cyfraniad ariannol angenrheidiol ynddynt. Heb eich cymorth a'ch cefnogaeth chi fel rhieni ni fyddai'r ymgyrch hon wedi bod yn llwyddiant; diolch o galon i chi am eich cefnogaeth unwaith eto.

**Te prynhawn Nadolig Ysgol Dyffryn Ogwen 2018**



*Disgyblion Blwyddyn 10*
Eto'r flwyddyn hon bu'r te prynhawn yn llwyddiant. Croesawyd yr henoed lleol i'r ysgol am brynhawn o luniaeth ysgafn a gwledd o adloniant. Roedd y lluniaeth wedi cael ei baratoi gan grŵp Lletygarwch blwyddyn 10, a bydd eu perfformiad yn cyfrif tuag at eu cymhwyster lefel 2 BTEC. Diolch o galon i fusnesau lleol am gyfrannu tuag at y bwyd a'r heb eu cyfraniad ni fuasem wedi gallu cynnal y te Nadolig.

**Plant Mewn Angen**
Cynhaliwyd cystadleuaeth pobi cacen ar thema Plant Mewn Angen, bu bron i 40 yn cystadlu. Llongyfarchiadau i Issy Forte blwyddyn 8 a Hannah Hughes blwyddyn 7 am ddod yn fuddugol. Casglwyd £455 at yr achos.

**Prosiect Syniadau Mawr Cymru**
Yn ddiweddar bu Marian Williams o Popty Bakery, Llanllechid, yn ymweld â disgyblion blwyddyn tair ar ddeg fel rhan o brosiect Syniadau Mawr Cymru. Roedd pawb wedi mwynhau dysgu mwy am Popty Bakery, sydd yn cynhyrchu cacennau i'w gwerthu i siopau fel Asda, Morrisons a Tesco. Roedd yn gyfle gwych i ni fel disgyblion ddysgu mwy am dechnegau rheoli busnes gan reolwraig busnes lleol llwyddiannus. Bydd hyn yn gwella ein heffeithlonrwydd wrth gyd-weithio mewn grwpiau yn ein Her Menter sydd yn rhan o'r Fagloriaeth Gymreig. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn iddi am ei hamser ac am gael blasu'r cacennau cri.

*Esme Crowe, blwyddyn 13*

**Ymweliad â'r Amgueddfa Lechi**
Bu rhai o ddisgyblion y chweched dosbarth yn yr Amgueddfa Lechi ar y 15fed o Dachwedd i gymryd rhan yn niwrnod Meddiannu Amgueddfeydd 2018. Cawsom y cyfle i greu helfa drysor ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd. Roedd yr helfa yn cynnwys cliwiau ar ffurf lluniau camera oedd yn cael eu defnyddio i ateb cwis byr a hwylus. Rydym yn hynod ddiolchgar ein bod wedi cael ein gwahodd i'r amgueddfa gan ein bod wedi cael y cyfle i ddatblygu llawer o sgiliau tra yn creu'r helfa. Cafwyd llawer o hwyl arni a rydym yn edrych ymlaen at weld sut mae staff yr amgueddfa am fynd ati i ddatblygu'r helfa luniau yn y dyfodol.

*Ella Baker a Chloe Hill, blwyddyn 12*

**Rygbi dan 16**
Ysgol Dyffryn Ogwen 74 - 15 Syr Hugh Owen

**Rygbi dan 14**
Ysgol Dyffryn Ogwen 55 - 0 Syr Hugh Owen

**Rygbi dan 13**
YDO 24 - 19 Tryfan
Jac Roberts yn sgorio 2, Gwion Pritchard 1 a Thomas Baker 1, Jac Roberts yn trosi.

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Gareth Llwyd** ☎ 601415
**Neville Hughes** ☎ 600853

**Rhifyn Chwefror**
Pob deunydd i law erbyn
**30 Ionawr 2019**
os gwelwch yn dda.
Plygu **14 Chwefror 2019**,
yng Nghanolfan Cefnfaes
am 6.45.



# Garddio

Ym mis Ionawr mae angen amddiffyn yr ardd rhag rhew a barrug, gwyntoedd cryfion a glaw trwm. Gallech symud rhai planhigion er mwyn sicrhau eu bod yn cael mwy o oleuni. Cofiwch fwydo'r adar hefyd – mae bwyd yn brin iawn iddyn nhw yn ystod y gaeaf. Gallwch hefyd ddechrau cynllunio ar gyfer yr ardd lysiau eleni.

**Tasgau**

1. Gwaredu'r goeden Nadolig trwy ei thorri'n ddarnau mân a'i defnyddio fel taenfa [mulch] i orchuddio'r pridd.
2. Agorwch ffenestri'r tŷ gwydr ar ddyddiau braf.
3. Pan nad yw'r pridd yn rhy wlyb, gallwch balu rhannau nad ydynt eisoes wedi'u palu.
4. Gallwch drwsio ac ail-siapio ochrau'r lawnt.
5. Edrychwch yn ofalus ar y Dahlia, Begonia a'r Canna rhag ofn eu bod wedi pydru.
6. Gallwch docio coed afalau a gellyg.
7. Gallwch roi bwced ar y riwbob a'i berswadio i dyfu'n gynt.
8. Cynlluniwch y modd yr ydych am gylchdroi eich cnydau yn yr ardd lysiau eleni.
9. Rhowch fwyd a diod yn rheolaidd i'r adar.
10. Mwynhewch gynllunio ymlaen wrth ddarllen eich catalogau.

Os yw'r ddaear wedi rhewi, cuddiwch eich rhosynnau neu goed ffrwythau sydd heb eu plannu â gwrtaith a'u gosod mewn potyn mewn lle cysgodol neu sied hyd nes y bydd y tywydd yn gwella. Byddai'r hen bobl yn dweud ei fod yn syniad da i roi cinio ar ddiwrnod Nadolig i'r rhosod hefyd. Os na wnaethoch chi hynny ychydig yn ôl, wel dyma'ch cyfle i'w bwydo nhw rŵan.

Cliriwch hen ddeilach a glaswellt a spigwch y lawnt yn ddwfn hefo fforch. Mae hwn yn waith caled ond mae'n talu ar ei ganfed am fod yr aer yn ysgafnhau'r pridd ac yn rhwystro mwsog yn nes ymlaen.

**Planhigyn y mis – Hamamelis mollis**
(Collen ystwyth/Wych hazel)
Daeth y goeden hon o Tsieina yn 1879. Mae'n goeden boblogaidd gan fod y brigau sy'n dal clystyrau o flodau melyn peraroglus yn dod â lliw ar ganol gaeaf. Yn nes ymlaen, bathwyd yr enw collen ystwyth gan ymsefydlwyr Prydeinig i Ogledd America oedd yn gweld tebygrwydd i'r gollen oedd yn gyfarwydd iddynt o'u mamwlad.

Daw'r gair 'wych' o'r hen air Saesneg am frigau hyblyg; dyna pam y defnyddir brigyn o'r gollen hon fel gwialen i chwilio am ddŵr – 'dowsing rod'.

## Braichmelyn

**Rhiannon Ifans**, Glanaber, Pant, Bethesda ☎ 600689

**Blwyddyn Newydd Dda**
Blwyddyn Newydd Dda i bawb, gan obeithio eich bod wedi cael Nadolig dedwydd. Mae'n siŵr y fod amryw dan annwyd a gyrrwn ein dymuniadau gorau iddynt.

CAFFI COED Y BRENIN
1 Rhes Buddug, Bethesda
Ffôn: 01248 602550
karena@agoriad.org.uk

Bwyd cartref blasus
*(mewn awyrgylch cyfeillgar)*
Cinio arbennig bob dydd Iau
Bwyd i'w gario allan
Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati
*(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)*
Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd
Prisiau rhesymol

BISTRO'R BRENIN
(Bwyty Trwyddedig)
Rydym yn croesawu partïon o bob math – dathlu pen-blwydd ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
Londri Coed y Brenin
wneud eich golchi

## Caerhun a Glasinfryn

**Cylch Glasinfryn**
Cyfarfod nesaf ar y 9fed o Ionawr, 3yp yng Nghanolfan Glasinfryn.

*Tavern on the Bay* oedd ein man cyfarfod mis Rhagfyr am ginio Nadolig. Cafwyd amser braf wrth ymlacio a sgwrsio mewn lleoliad braf. Diolchwyd i Mair am ei threfniadau trylwyr gan Glenys. Dymuna'r Cylch Flwyddyn Newydd Dda i Bawb.

**Bingo Nadolig Canolfan Glasinfryn**
Cafwyd noson o godi arian hwyliog yn y Ganolfan ar 7fed o Ragfyr, elw er budd y Ganolfan. Llwyddwyd i godi £157 i'r Ganolfan a fydd yn cael ei ddefnyddio i beintio'r Neuadd. Diolch yn fawr iawn i bawb am eich cefnogaeth a charedigrwydd dros y flwyddyn i'r Neuadd, yn ogystal â'r rhoddion hael tuag at wobrau'r Bingo a Raffl at wahanol achosion da. Gwerthfawrogir eich cyfraniadau.

**Profedigaeth**
Cydymdeimlwn a Gwyneth Jones ag Arfon Thomas, Waen Wen, ar golli eu brawd yng nghyfraith, Tegwyn Bassett o Gaernarfon, gŵr Margaret eu chwaer.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau mawr i Sara Orwig, Bryn Gwredog Uchaf, Waen Wen, ar ennill Doethuriaeth, (Ph.D) ar draethawd ar "Ddylanwadau Llenyddiaeth Saesneg ar Lenyddiaeth Cymraeg a Dylanwadau Llenyddiaeth Saesneg ar Lenyddiaeth Ffrangeg yng Nghanada". Pob dymuniad da i chdi Sara tuag at y dyfodol.

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog
A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068

# Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen),**
44 Bro Syr Ifor, Tregarth ☎ 600192
**Angharad Williams,**
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth ☎ 601544

**Eglwys y Santes Fair**
*Gwasanaethau: Ionawr*
20: Boreol Weddi
27: Cymun Bendigaid

*Chwefror*
3: Boreol Weddi
10: Cymun Bendigaid
17: Boreol Weddi

Pob gwasanaeth yn dechrau am 9.30yb.

Cynhelir y Te Bach nesaf ar Ddydd Mawrth, Ionawr 22ain am 2yp. Croeso i bawb alw draw am baned a thamaid o gacen.

Dymunwn wellhad buan i aelodau'r gynulleidfa sydd wedi bod yn sâl neu yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i Brenda Hughes, David Jones a Susan Kennedy.

**Brysiwch Wella**
Dymuniadau gorau i Sioned Roberts, 28 Bro Syr Ifor, sydd newydd dderbyn trawsblaniad diweddar ar ddechrau mis Rhagfyr.

**Profedigaeth**
Bu farw John Trefor Williams, Henfaes, Pendinas, Tregarth yn Ysbyty Gwynedd ar Ragfyr 10fed yn 99 mlwydd oed. Roedd yn briod â'r diweddar Gwyneth ac yn dad i Margaret ac Elizabeth, yn daid a hen daid annwyl iawn. Bu ei angladd yng Nghapel Berea Newydd, Bangor ar Ragfyr 18fed a chydymdeimlwn gyda'r teulu yn eu profedigaeth.

**Merched y Wawr Cangen Tregarth**
Bydd y gangen yn cyfarfod nesaf yn Festri Capel Shiloh, Nos Lun, Chwefror 4ydd am 7.30 pan gawn gwmni Megan Tomos, Llanllechid a thestun y noson fydd 'Gwreiddiau a Llyfrau.' Croeso cynnes.

**Capel Shiloh**
Gwasanaethau am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol

| | |
|---|---|
| Ionawr 20 | Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid |
| Ionawr 27 | Mererid Mair, Caernarfon |
| Chwefror 3 | Richard Gillion. Oedfa Sacrament |
| Chwefror 10 | Gwynfor Williams, Caernarfon |
| Chwefror 17 | Glyn Owen, Llanwnda |
| Chwefror 24 | Eric Jones, Bangor |

**Dathlu'r Nadolig**
Cafwyd cyfle eto eleni i ddathlu'r Nadolig yn Shiloh gyda dwy Oedfa arbennig. Nos Sul, Rhagfyr 23ain, roedd cyfle i'r plant a'r ieuenctid gyflwyno neges y Nadolig a chyflwynwyd yr hen, hen stori yn effeithiol ac yn ffres. Cafwyd datganiad ar y ddwy Delyn gan Gwenno a'i ffrind Annest o'r Felinheli. Yna darlleniadau, carolau a gweddïau gan Iestyn, Gwenlli, Gwenno Kervegant, Gwenno Roberts, Huw, Luke, Myfi, Nel a rhai rhieni hefyd yn cyflwyno darlleniadau. Cafwyd unawd swynol gan Aziliz ac roedd Mali Non a'i chwaer fach pum mis oed, Nanw Branwen, yno yn cyflwyno Mair a'r baban Iesu. Canodd Mali gân 'Dyma ni'n mynd i Fethlehem' a chafwyd blas ac awyrgylch y Nadolig cynta hwnnw ym Methlehem. Diolch o galon i bob un ohonynt ac i Christine Morris Jones am baratoi, a'r gweinidog, Richard Gillion am ei gyflwyniad yntau. Cafwyd parti Nadolig i bawb ar ddiwedd yr oedfa, gwledd ardderchog, a daeth Sion Corn i rannu anrhegion i bawb o'r plant a'r ieuenctid. Cafodd groeso mawr ac un fechan yn mynnu cael cwtsh fawr gan Siôn Corn cyn iddo gychwyn ar ei daith o gwmpas y byd!

Nos Lun, Noswyl y Nadolig roedd gwasanaeth wedi'i drefnu a Swper y Sacrament dan ofal y Parchedig Richard Gillion am 6 o'r gloch. Diolch am y cyfle i ddod at ein gilydd i gofio am y mab bychan yn y preseb. Yr organydd oedd Wyn Williams, Tyddyn Dicwm a diolchwn iddo yntau am ei gyfraniad ymhob oedfa yn ystod y flwyddyn. Addurnwyd y Capel yn hardd dros ben a diolchwn i Eirwen ac Anwen am hynny.

**Drws Agored**
Bob bore Gwener yn Shiloh mae'r drws ar agor a chyfle i bawb o'r ardal i droi mewn am sgwrs, cwmni a phaned. Diolch i'r aelodau ffyddlon sydd yn rhoi o'u hamser i baratoi ar gyfer bore Gwener.

# gair neu ddau

John Pritchard

## Cerrig Milltir

Gwawriodd blwyddyn newydd, ac fel pob blwyddyn arall daw hon â'i phrofiadau a'i digwyddiadau ei hunan. Daw hefyd â'i hatgofion wrth i ni fynd heibio i sawl carreg filltir, rhai ohonynt yn nodi pethau personol ac eraill bethau cenedlaethol neu ryngwladol. Pe byddai fy nhad wedi byw llai na phedair blynedd yn hwy mi fyddai'n gant oed y mis nesaf, ac yntau wedi ei eni fis Chwefror 1919. Bedwar ugain mlynedd yn ôl, gwelwyd dechrau'r Ail Ryfel Byd, ac mi glywn ni lawer eleni am y digwyddiadau a esgorodd ar hwnnw yn 1939. Drigain mlynedd yn ôl, daeth yr Eisteddfod Genedlaethol i Gaernarfon; ac wrth i'r Dre obeithio'i chroesawu eto yn 2021 bydd pobl yn cofio'r ymweliad hwnnw yn 1959. Roedd yr Eisteddfod yno ddeugain mlynedd yn ôl hefyd, ond mae 1979 yn fwy cofiadwy i mi fel y flwyddyn y cefais f'ordeinio'n weinidog ym Mhen Llŷn. Sefydlwyd y Cynulliad Cenedlaethol yn 1999, a dylai ugeinfed pen blwydd ein Senedd gael cryn sylw eleni.

Ac erbyn i chi ddarllen y geiriau hyn bydd 2019 eisoes yn gofiadwy i ambell un ohonom oherwydd rhyw ddigwyddiad penodol, melys neu chwerw. Ond pwy a ŵyr beth arall a ddigwydd dros y misoedd nesaf i'w gwneud yn flwyddyn nodedig? Mae'r cyfan yn ddirgelwch llwyr i ni, a bydd pob diwrnod a gawn yn llwybr newydd na fuom arno o'r blaen. Mentrwn ymlaen drostynt gan bwyso ar Dduw a chan ein hymddiried ein hunain i'w ofal. Beth bynnag a ddaw, gwyddom y cawn ei arweiniad a'i nerth, a gwyddom y derbyniwn bob gras sydd ei angen arnom i lynu wrtho.

Does gen i ddim cof i mi wneud adduned blwyddyn newydd erioed. A doedd gen i ddim bwriad i newid yr arferiad hwnnw eleni. Ond mi wnes i osod nod i mi fy hun i ddilyn cyfres o ddarlleniadau Beiblaidd arbennig sy'n dod i'm ffôn symudol bob dydd. Nicky Gumble, sylfaenydd y Cwrs Alffa y mae miloedd os nad miliynau o bobl wedi cael eu cyflwyno drwyddo i'r Ffydd Gristnogol, sy'n gyfrifol am y myfyrdodau dyddiol hyn. O'u dilyn, bydd pobl yn darllen trwy'r Beibl cyfan mewn blwyddyn. Mi garwn feddwl y gallaf wneud defnydd o'r rhain eleni.

Yn y darlleniadau hynny y cefais f'annog yn gynnar yn y flwyddyn newydd i chwilio am ddiogelwch yn yr Arglwydd Iesu Grist. Wrth drafod geiriau olaf yr Ail Salm, 'Gwyn eu byd y rhai sy'n llochesu ynddo', dywed Nicky Gumble wrthym, 'Yn wyneb holl stormydd bywyd, ac yn fwyaf arbennig y storm a ddaw gydag ail ddyfodiad Iesu yn y farn derfynol, yr unig le diogel i ni yw bod "ynddo ef"'.

Yr un peth a wn, os dof yn agos at y nod a osodais i mi fy hun, yw y caf gysur trwy eiriau'r Beibl yng nghwmni Nicky Gumble.

## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

**Cyngor Cymuned Llanddeiniolen**
Wedi nifer o flynyddoedd, mae gwasanaeth banciau ailgylchu ym Methel a Rhiwlas wedi dod i ben. Y rheswm pennaf am hyn yn ôl Cyngor Gwynedd yw cost y gwasanaeth. Fodd bynnag, mae darpariaeth gyfatebol ar gael trwy'r gwasanaeth wythnosol bob eiddo, neu ymweld ag un o'r Canolfannau Ailgylchu ym Mangor neu Chaernarfon.

**Profedigaeth**
Cydymdeimlwn â theulu Merfyn Hughes, Clawdd Newydd, Llanrug a fu farw cyn y Nadolig. Yn wreiddiol o Tŷ Cefn, Waun Pentir, yn fab i'r diweddar Cecil a Margaret, brawd y diweddar Emlyn. Bu'n organydd yng Nghapel Peniel cyn iddo symud i lawr i'r de, nes iddo ddychwelyd yn ôl, a pharhaodd yn aelod ffyddlon a gweithgar i Gapel Peniel.

Yn ystod ei yrfa mi fuodd yn reolwr Gwaith Brics Caernarfon a gweithio i Gyngor Arfon nes iddo sefydlu cwmni Gwastraff Môn ac Arfon. Er yn wael ei iechyd, llwyddodd i fynychu aduniad Ysgol Rhiwlas ym mis Hydref a mi fwynhaodd sgwrs â hwn a'r llall. Anfonwn ein cofion at ei wraig, Rhiannon, a'r plant: David, Eirian, Eleri Gareth ac Elisabeth, ei chwaer yng nhgyfraith a'r wyrion, wyresau a'r teulu estynedig.

Cydymdeimlwn â Nia Jones, Cae Glas a gollodd ddwy fodryb yn ddiweddar. Roedd Miss. Dilys Jones o Fangor a fu farw yn 96 oed yn gyfnither i'w mam, Gwenno Evans, Bethesda. Roedd Mrs. Dwynwen Rowlands, a fu farw yn Ysbyty Eryri yn 93 oed, yn unig chwaer i'r diweddar Emlyn Evans, tad Nia. Cydymdeimlwn â Gwenno hefyd.

**Miss. Dilys Jones**
I lawer ohonom, Miss. Jôs Ysgol Waun fydd hi am byth. Bu'n athrawes babanod yn yr ysgol am flynyddoedd lawer, wedi dysgu cenedlaethau ohonom ac yn uchel iawn ei pharch. Pan ddechreuodd ddysgu yn y pentref daw hi'r holl ffordd o Fangor ar ei beic, yna sgwter ac yna'r Volkswagen Beetle, a phawb yn adnabod y rhif - LEY 2. Cyflwynodd hi ni i fyd natur a rhaid oedd gwybod enw'r blodyn yn Gymraeg cyn cael ei roi ar y bwrdd natur. 'Roedd hi yn allweddol yng nghychwyn adran yr Urdd yn yr ysgol, 'roeddem yn cystadlu'n reolaidd a llwyddo ar adegau i fynd i'r Genedlaethol gyda pharti adrodd, dawnsio gwerin a chân actol, a rhain yn ddeunydd gwreiddiol wedi ei hysgrifennu ganddi hi bob tro. Dwi'n siwr y bydd llawer yn cofio'r cyfnod yma.
Beth am anfon llun i'r Llais? Dwi'n siwr fod amryw ar gael gan gyn-ddisgyblion. Diolch i chi Miss. Jôs am yr addysg a'r holl brofiadau a gawsom gennych.

**Merched y Wawr**
Cyfnod y gwledda yw mis Rhagfyr i bob cymdeithas bellach a fel 'na y buodd i ninnau hefyd. Cawsom ein cinio Nadolig yng Ngwesty Melin Seiont a chael bwyd blasus a sgwrsio difyr.

Anfonwn ein cofion at un o'n haelodau, Mrs. Jennie Jones, sydd ar y funud yn Ysbyty Eryri wedi cyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Brysiwch wellla i ni gael mwynhau eich cwmni unwaith eto.

**Clwb Rhiwen**
Aethpwyd i'r Pafiliwn, Llandegai am ginio Nadolig ac unwaith eto roedd pawb wedi mwynhau eu hunain. Dilys ddaeth a'r raffl a Brenda oedd yr enillydd lwcus.
Cofiwch fod y clwb yn cyfarfod ar yr 2$^{il}$ a'r 4$^{ydd}$ Dydd Mercher yn y mis, yn y Neuadd, am 2 o'r gloch. Mae'n hawdd anghofio!

**Noson gyda Elvis**
Cynhelir noson gyda Elvis yn y Neuadd, Nos Sadwrn, Chwefror 16$^{eg}$. Tocynnau ar gael gan Elwyn, 07936545645, neu gan aelodau o'r pwyllgor. Dewch i gefnogi gweithgaredd gan y Neuadd.

**Dymuniadau Gorau**
Pob dymuniad da i Cara a Finley, 2 Rhes Penrhyn, a'u mab Charlie. Wedi ei eni, treuliodd Charlie ddeufis yn Ysbyty Plant Alder Hey ond mi gafodd ddod adref erbyn y Nadolig. 'Roeddem yn meddwl amdanoch yn ystod yr amser pryderus yma i chi.

**Brysiwch Wella**
Dymunwn wellhad buan hefyd i Glenys Jones, Bron y Waun, a niweidiodd ei ffêr ar ôl codwm.

**Difrod**
Ychydig fisoedd yn ôl cafodd arwydd ei osod ar wal y lle parcio o flaen y Neuadd i ddynodi mai safle i'r anabl ydyw. Yn anffodus aeth rhywun ati i'w dynnu oddi ar y wal a'i osod ben i waered. Dengys hyn ddiffyg parch at yr anabl ac at eiddo'r Neuadd. Diolch i John Jones, Bro Rhiwen, am ei ail osod yn gywir.

**Calendrau**
Bu gwerthiant da a diolch eto eleni i Gareth am werthu 30 ohonynt. Dymunir Blwyddyn Newydd Dda i'n darllenwyr.

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)

**L. Sturrs a'i feibion**
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
Hen Iard Stesion,
Ffordd y Stesion, Bethesda
Ffôn: 600953
lsturrs@googlemail.com

Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer
**Ronald Jones**
Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

**Cerbydau Penrhyn**
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
07770 900531
01248 600282
jtemplemorris@btinternet.com

Owen's Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
*Arbenigo mewn meysydd awyr*
*Cludiant Preifat a Bws Mini*

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

# Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?

## DYDDIADUR BOREAU COFFI 2019

*Ionawr*
26 Cefnfaes - Cronfa Goffa Tracy Smith.

*Chwefror*
02 Cefnfaes - Gofalwyr Gwynedd a Môn
16 Caffi Coed y Brenin - Apêl Morgan Hughes

*Mawrth*
02 Cefnfaes – Plaid Cymru
09 Cefnfaes – Plaid Lafur
16 Cefnfaes - Eglwys Crist Glanogwen
23 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.
30 Cefnfaes - Clwb Camera

*Ebrill*
06 Cefnfaes – Neuadd Talgai
13 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
27 Cefnfaes – Cymdeithas Capel Jerusalem

*Mai*
11 Cefnfaes – Cymorth Cristnogol.
18 Cefnfaes - Gorffwysfan

*Mehefin*
15 Cefnfaes – Eglwys Crist Glanogwen.
22 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.
29 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.

*Medi*
28 Cefnfaes – Plaid Cymru.

*Hydref*
19 Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
26 Cefnfaes – Eglwys St. Cedol, Pentir.

*Tachwedd*
23 Cefnfaes – Neuadd Talgai.

Pwysig - Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).

CANOLFAN CEFNFAES

**GYRFA CHWIST**

IONAWR 22 a 29
CHWEFROR 12 a 26

am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI CRONFA GOFFA TRACY SMITH**

SADWRN, 26 IONAWR
10.00 – 12.00

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI GOFALWYR**
**GWYNEDD A MÔN**

SADWRN, 2 CHWEFROR
10.00 – 12.00

**Cyfarfod Blynyddol Eisteddfod Gadeiriol Dyffryn Ogwen**

Festri Jerusalem
23 Ionawr am 7.30yh

**NEUADD TALGAI**

**Raffl Santes Dwynwen a Bingo**
**St. Tegai, Llandygai**
31 Ionawr 2019
am 7.00yh.

CAFFI COED Y BRENIN

**BORE COFFI**

DYDD SADWRN, 16 CHWEFROR
10.00 - 12.00

Elw at Apêl Morgan Hughes, Tregarth

**Cymdeithas Jerusalem**

Nos Iau, 14 Chwefror
am 7.00yh
yn Festri Jerusalem

**Noson yng nghwmni William Owen**

**CYMDEITHAS HANES DYFFRYN OGWEN**

**Nos Lun, 11 Chwefror am 7.00yh**

**yn Festri Capel Jerusalem**
**Wyn Bowen Harries**
**"Hanes Cynnar Comin Llanllechid"**
**£1.50 wrth hy drws neu am ddim i aelodau**

Carmel Llanllechid

**Te Bach**

yn y festri

**Pnawn Llun, 28 Ionawr**
2.30 – 4.00
Croeso i bawb

**Meddygfa Bethesda**

**ATGOFION AR GÂN**

**Sesiynnau cerddorol i bobl dros 50 oed**
**Dydd Gwener, 18 Ionawr**
**Dydd Gwener, 01 a 15 Chwefror**
**1.15 – 2.30**
**Paned a chân yn ddi-dâl**
**(Canolfan Gerdd William Mathias)**

## Llandygái

**Iona Wyn Jones,** Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
**Eirlys Edwards**, Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU ☎ 01248 351633

**Eglwys Sant Tegai, Llandygai**
**Gwasanaethau Sant Tegai**
Pob bore Mercher yn Sant Tegai am 9.15yb. Boreol Weddi a'r Offeren yn dilyn am 10.15yb.

Os ydych yn brin o amser – ymunwch â ni am un ohonynt – mae yna amser rhwng y ddau wasanaeth i ymadael.
Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30yb.
Gwasanaethau ar yr 2il a'r 3ydd Sul yn y mis am 11yb.

**Blwyddyn Newydd Dda!**
Fel cynulleidfa hoffem ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn Nyffryn Ogwen. Hedd, hapusrwydd a iechyd i chi a'ch teuluoedd.

**Gwasanaeth Naw Llith a Charol**
'Roedd yr eglwys yn gyfforddus lawn ar gyfer ein gwasanaeth traddodiadol o Naw Llith a Charol ar nos Sul, Rhagfyr 23ain.. Arweiniwyd yr achlysur yn ddwyieithog gan y Ficer, y Parchedig John Matthews a'r darllenwyr oedd Liz Bestwick, Morwena Bean, Edmond Douglas Pennant, Huw Pritchard, Y Chwaer Julian, Gwenan Llewelyn Jones, Janette Roberts, Ann E. Williams a'r Parchedig John Matthews. Yr organydd oedd Geraint Gill. Cafwyd gwin poeth a lluniaeth ysgafn Nadoligaidd yn Neuadd Talgai ar ôl y gwasanaeth. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu'n paratoi'r eglwys ac i'r unigolion a gyfrannodd mor hael i'r bwyd wedyn.

**Noswyl y Nadolig**
Croesawyd nifer o blwyfolion ac ymwelwyr i'r Offeren ar noswyl y Nadolig am 11.15yh. Y Parchedig John Matthews oedd yn gweinyddu a'r darllenwyr oedd Edmond Douglas Pennant a Huw Llewelyn Jones. Yr organydd ac unawdydd oedd Geraint Gill.

**Gŵyl Enwi Iesu (Ionawr 1af)**
Gwasanaeth tawel a bendithiol oedd yr addoliad ar ddydd Gŵyl Enwi Iesu. Daeth cynulleidfa dda i glywed pregeth ar ystyr enwau gwahanol i'r Iesu.

**Raffl Santes Dwynwen a Bingo'r eglwys nos Iau Ionawr 31ain**
Mae aelodau'r eglwys wedi bod yn brysur yn gwerthu tocynnau raffl i ennill potel "champagne" ar gyfer diwrnod Santes Dwynwen. Mae'r elw at Gronfa Atgyweirio St Tegai. Bydd y tocyn buddugol yn cael ei dynnu yn noson Bingo'r Eglwys ar nos Iau, Ionawr 31ain am 7.00yh yn Neuadd Talgai. Croeso i chi atom i gyd-gymdeithasu.

## Marchnad Ogwen

Mae'r Farchnad wedi cael blwyddyn lwyddiannus dros ben, ac wedi gorffen y flwyddyn honno ar nodyn uchel yn wir! Roedd Marchnad Rhagfyr yn dra phrysur gydag awyrgylch hapus braf. Diolch o galon i Hogia'r Bonc am eu cyfraniad unigryw i lwyddiant y noson. Ymlaen â ni - a gobeithio y daw 2019 a ni at ein gilydd fel cymuned ar yr ail Sadwrn o bob mis. 'Ydach chi erioed wedi bod ym Marchnad Ogwen? Wel 2019 amdani!

Llongyfarchiadau i Rita Bullock am ennill raffl y cardiau glas. Mae gan Rita £50 i'w wario yn y Farchnad, ac roedd y stondinwyr yn hapus dros ben wrth sylweddoli mai cwsmer ffyddlon i'r Farchnad oedd wedi ennill. Mwynha' Rita a diolch am dy gefnogaeth.

Mae'r cardiau glas ar gael i unrhyw un eu defnyddio yn y Farchnad. Paned am ddim ar ôl tri ymweliad a chyfle i ennill Tocyn Anrheg y Farchnad bob hyn a hyn.

Mae gennym ddwy stondin gacennau o Ionawr ymlaen. Mae Gwenno yn cynhyrchu cacennau diglwten. Mae'n debyg i rai ohonoch weld hanes Gwenno, a'i stondin ym Marchnad Ogwen, ar raglen 'Heno' S4C cyn y Nadolig. Roedd cryn edrych ymlaen at stondin newydd - Cypcês Lois yn siŵr i chi! Croeso mawr i Lois.

Bydd Stondin Elusen mis Chwefror yng ngofal Eglwys Glanogwen. Mis Awst yw'r unig fis sydd ar gael yn 2019!

Mae Cyfarfod Blynyddol y Farchnad nos Fawrth, Chwefror 12fed yn y Douglas Arms am 7 o'r gloch. Croeso.

Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk ac ar facebook.

Modurdy Central
M.O.T. ar gael
Hefyd
Trwsio a Gwasanaeth
Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda
☎601031

Marchnad Ogwen
Chwefror 9fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm
Mawrth 9fed
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm
Ebrill 13eg
Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm
Bwydydd, Crefftau, Lleol
www.marchnadogwen.co.uk
Facebook

Cwmni Drama'r Llechen Las yn cyflwyno
LLETY LLOERIG


**Cyfarwyddwyr**:
Iwan Fôn a Gaynor Elis-Williams
**Sgript**
gan Gaynor Elis-Williams a Marian Jones
Llond gwesty o hwyl a sbri i'r teulu cyfan efo **PANTO GWREIDDIOL** newydd sbon Cwmni Drama'r Llechen Las gan bobol Pesda i bobol Pesda!
Cast: Cwmni Drama'r Llechen Las a rhai o Glwb Drama Crawia
**Neuadd Ogwen, Bethesda**
Gwener 18 Ionawr 7.30yh
Sadwrn 19 Ionawr 2.30yh
£6 Oedolion a £3 i Blant
www.neuaddogwen.com a Siop Ogwen



# Eisteddfod Gadeiriol

## Cyfarfod yr Hwyr – Nos Wener Tachwedd 16eg, 2018

**Unawd Lleisiol:**
1af – Erin Fflur - Y Felinheli
2il – Glyn Morris - Manceinion
3ydd – Caleb Rhys - Bethesda

**Unawd Offerynnol (yn cynnwys piano):**
1af – Gwydion Rhys - Bethesda
2il – Ella Williams - Bontnewydd
3ydd – Luned Elfyn - Bethesda

**Côr Cymysg/Meibion/Merched:**
1af – Côr Penrhyn
2il – Côr Dre

**Rhaglen o Adloniant i Ysgolion Uwchradd**
1af – Ysgol Syr Hugh Owen
2il - Ysgol Dyffryn Ogwen

**Canlyniadau Adran Llenyddol**
**Enillydd y Gadair:**
Dafydd Guto Ifan - Llanrug

**Enillydd y Fedal Ryddiaith:**
Dafydd Guto Ifan - Llanrug

**Enillydd Medal yr Ifanc:**
Hannah Morgan - Ysgol Dyffryn Ogwen
Cydradd ail - Cadi Roberts a Beca Nia
Ysgol Dyffryn Ogwen

**Llên yr Ifanc**
**Blynyddoedd 7-9:**
1af – Martha Jones - Ysgol Dyffryn Ogwen
2il – Elin Lewis - Ysgol Dyffryn Ogwen
3ydd - Osian Wyn Rowlands - Ysgol Dyffryn Ogwen

**Blynyddoedd 10-11:**
1af – Luned Elfyn - Ysgol Dyffryn Ogwen
Cydradd 2il – Efa Burgess a Begw Evans - Ysgol Dyffryn Ogwen



*Lea Mererid, Pwllheli. Tarian Perfformiad Cerddorol Gorau.*



*Unawd Offerynnol Bl. 6 ac Iau : Leusa Morris, Ysgol Llanllechid, 3ydd.*

Sefydlwyd 1969
m.hughes a'i fab
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.
Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.
Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.

Copa
Siop Trin Gwallt a Harddwch
Bethesda 600094
Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

DAFYDD CADWALADR
Cynhyrchion Coedlannol
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy losgi coed
01248 605207

Hoffech chi ddysgu mwy am hanes y gymuned leol rhwng 1700 a 1950?
Cwrs Hanes Lleol
gyda Gerwyn James
Nos Fawrth, 6:30—8:30yh
Yn dechrau 22/01/19
Stryd y Deon, Bangor, LL57 1UT
Cwrs 10 wythnos, gorffen 02/04/19
Dewch i drafod ffynonellau gwreiddiol, a dysgu sut i wneud ymchwil ar destun neu bwnc hanesyddol.
Yn addas i siaradwyr Cymraeg a dysgwyr rhugl.
Am fwy o wybodaeth ac i archenu eich lle, cysylltwch gyda
Bethan Glyn—01248 383928 / b.l.glyn@bangor.ac.uk

# Dyffryn Ogwen 2018

## Dydd Sadwrn Tachwedd 17eg, 2018

**Llefaru Meithrin**
1af – Erin Môn - Ysgol Llanllechid
2il – Cêt Ogwen - Ysgol Abercaseg
3ydd – Mali Non - Ysgol Abercaseg

**Unawd Meithrin**
1af - Gruff Rhys - Ysgol Llanllechid
2il - Celt Madog - Ysgol Llanllechid
3ydd - Cêt Ogwen a Mali Non - Ysgol Abercaseg

**Llefaru Derbyn**
1af - Eban Roberts - Ysgol Llanllechid
2ail - Elsi Mererid Allsup - Ysgol Llanllechid
3ydd - Alfie Muldoon- Ysgol Llanllechid

**Unawd Derbyn**
1af – Ela Grace - Ysgol Llanllechid
2il – Elsi Mererid Allsup - Ysgol Llanllechid
Cydradd 3ydd – Lili Herbert-Ysgol Llanllechid a Cati Wyn-Ysgol Abercaseg

**Llefaru Blwyddyn 1**
1af – Lili Mair Williams - Ysgol Llanllechid
2il – Mali Haf Hughes - Ysgol Llanllechid
3ydd – Mared Llywelyn Williams -Ysgol Llanllechid

**Unawd Blwyddyn 1**
1af – Lili Mair Williams - Ysgol Llanllechid
2il – Efan James - Ysgol Llanllechid
3ydd – Catrin Haf - Ysgol Llanllechid

**Llefaru Blwyddyn 2**
1af - Catrin Morris - Ysgol Llanllechid
2il – Medi Haf - Ysgol Llanllechid
3ydd – Elen Dafydd - Ysgol Llanllechid

**Unawd Blwyddyn 2**
1af – Elenya D'Amora - Ysgol Llanllechid
2il – Nest Durrent - Ysgol Llanllechid
Cydradd 3ydd – Elliw Parri Williams - Ysgol a Judah Parry - Ysgol Tregarth

**Llefaru Blynyddoedd 3 a 4**
1af – Gwenno Beech - Ysgol Llanllechid
2il – Gruff Beech - Ysgol Llanllechid
Cydradd 3ydd - Llinos Ball - Ysgol Llanllechid a Cadi Efa Huws - Ysgol Llanllechid

**Unawd Blynyddoedd 3 a 4**
1af – Gwenno Beech - Ysgol Llanllechid
2il – Gruff Beech - Ysgol Llanllechid
Cydradd 3ydd - Angharad Ball - Ysgol Llanllechid a Betsi Lŵ - Ysgol Pen y Bryn

**Llefaru Blynyddoedd 5 a 6**
1af – Mali Fflur - Ysgol Llanllechid
2il – Dwynwen Meleri - Ysgol Pen y Bryn
Cydradd 3ydd – Chenai Chikanza - Ysgol Llanllechid a Liwsi Mo - Ysgol Pen y Bryn

**Unawd Alaw Werin Blwyddyn 6 ac iau**
1af – Gwenno Beech - Ysgol Llanllechid

**Unawd Blynyddoedd 5 a 6**
1af – Mia Williams - Ysgol
Cydradd 2il – Chenai Chikanza a Mari Roberts - Ysgol Llanllechid

3ydd – Dwynwen Meleri Pritchard - Ysgol Pen y Bryn a Eli Roberts - Ysgol Penybryn

**Parti Llefaru Ysgol Gynradd**
1af – Parti blwyddyn 5 a 6 Ysgol Llanllechid
2il - Parti Blwyddyn 6 Ysgol Pen y Bryn
3ydd - Parti Blwyddyn 5 Ysgol Pen y Bryn

**Unawd Offerynnol Blwyddyn 6 ac iau**
1af – Lea Mererid - Pwllheli
2ail - Elliw Davies - Ysol Llanlechid
3ydd – Leusa Morris - Ysgol

**Unawd Piano Blwyddyn 6 ac iau**
1af - Lea Mererid - Pwllheli

**Grŵp Offerynnol Blwyddyn 6 a iau**
1af - Grŵp Griff - Ysgol Llanllechid
Cydradd 2il - Seren ac Erin - Ysgol Llanllechid a Carwyn ac Isla - Ysgol Llanllechid

**Parti Unsain Blwyddyn 6 ac iau**
1af – Part Blwyddyn 4 a 5 Ysgol Llanllechid
2il – Parti Blwyddyn 5 Ysgol Pen y Bryn
3ydd – Parti Blwyddyn 6 Ysgol Llanllechid

**Unawd Cerdd Dant**
1af - Gwenno Beech - Ysgol Llanllechid

**Parti Cerdd Dant**
1af - Parti Blwyddyn 6 Ysgol Llanllechid
2il - Parti Blwyddyn 4 a 5 Ysgol Llanllechid

**Côr Blwyddyn 6 ac iau**
1af – Côr Ysgol Llanllechid
2il – Côr Ysgol Pen y Bryn

**Grŵp Dawnsio Disgo Blwyddyn 6 ac iau**
1af - Grŵp Ffion - Ysgol Llanllechid
2il - Grŵp Cadi - Ysgol Llanllechid

**Tarian Perfformiad Gorau am Lefaru**
Chenai Chikanza - Ysgol Llanllechid

**Tarian Perfformiad Gorau Cerddorol**
Lea Mererid - Pwllheli

**Llenyddiaeth Ysgolion Cynradd y Dalgylch**
**Stori**
1af – Tili Roberts Jones - Ysgol Llanllechid
2il – Eban Pritchard - Ysgol Llanllechid
3ydd – Elan Jones - Ysgol Llanllechid

**Barddoniaeth**
1af – Eban Pritchard - Ysgol Llanllechid
2il – Ffion Tipton - Ysgol Llanllechid
3ydd – Hana Jones - Ysgol Llanllechid



*Rhaglen o Adloniant i Ysgolion Uwchradd - Ysgol Dyffryn Ogwen - 2il wobr.*

# SIOP OGWEN

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois, Crefftau, DVDs, Golwg, Llyfrau, Lluniau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhowch ganiad i'r Siop am ragor o wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)

partneriaeth@ogwen.org

**01248 208 485**



**Londis Bethesda**

☎ 01248 605566

**Archfarchnad hwylus**

**Gwasanaeth personol**

**gyda'r pwyslais ar y cwsmer**

Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy

Peiriant codi arian di-dâl

**Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr**

**7 diwrnod yr wythnos**



**Arbenigwr mewn lloriau coed caled**

**A.G.L.** Lloriau

Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.

Andrew G. Lomozik B.A.

Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909


## Ysgol Pen-y-bryn



**Dawns i Bawb**

Cafwyd perfformiad o ddawns dosbarth Glyder a Glyder Fach yn yr ysgol yn dilyn sesiynau dawnsio gydag Elin, Dawns i Bawb. 'Roedd gwahoddiad i rieni a theulu i ddod i weld y perfformiad a'r darn gorffenedig a oedd wedi selio ar themâu'r dosbarth y tymor yma. Roedd yn brofiad gwych a bu i'r disgyblion fwynhau cwmni Elin yn fawr iawn. Diolch i ti Elin!

**Cyngerdd Nadolig**

Cafwyd cyngerdd hynod lwyddiannus yn Ysgol Dyffryn Ogwen ar Ragfyr 19eg. "Hen Ddynes Ddoeth y Lleuad" oedd y sioe. Doedd yr hen ddynes yn methu deall beth oedd yng nghlwm a'r holl fwrlwm oedd ar y ddaear ar yr adeg yma, ac y mae'n penderfynu bod yn rhaid iddi ddod lawr ar seren wib i weld drosti ei hun. Bu'r plant yn gweithio'n ofnadwy o galed gyda'r ymarferion ac roedd eu perfformiadau ar y noson yn wych! Diolch o galon i'r rhieni am eu cefnogaeth ac wrth gwrs i'r plant. Hefyd, i Ysgol Dyffryn Ogwen a'i staff am y croeso ac am gael defnyddio'r cyfleusterau.




**CHRIS GRIFFITHS**

**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**



18 Carreg Felin
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB

☎ 01248 713 369 neu 07813 455653



**SAMARIAID**

Mae
**Llinell Gymraeg**

0808 164 0123

**ar gael bob nos rhwng 7.00pm ac 11.00pm**



**Arfbais Douglas Arms**

**Cwrw Casgen - Gardd Gwrw**

**Noson Cwis** Yr ail nos Fawrth bob mis – 20:00

**Oriau Agor**

Llun - wedi cau
Mawrth – Gwener 18:00 – 23:00
Sadwrn 15:30 – 00:00
Sul 13:00 – 15:00 a 20:00 – 23:00

douglasarmsbethesda.com

**01248 600219**



# Pwy Sy'n Cofio Ddoe?

© Dr J. Elwyn Hughes



## Clwb Golff Nant Ffrangcon

Ia, dyna sut yr oeddan nhw'n sillafu 'Ffrancon' yn nheitl y Clwb Golff a sefydlwyd, efallai, yn y 1930au. A phwy f'asa wedi meddwl bod 'na glwb golff yn y fan honno! A phwy f'asa wedi dychmygu y byddai chwarelwyr tlawd Dyffryn Ogwen wedi bod ag amser, na diddordeb, hyd yn oed, i fynd i chwarae golff. Iddyn nhw, mae'n debyg mai gêm i fyddigions oedd golff ac nid i werinwyr tlawd a blinderus eu byd fel nhw.

Byddai'n ddiddorol cael gwybod pwy gafodd y syniad yn y lle cynta i sefydlu clwb golff yn Nant Ffrancon a sut yr aethpwyd ati i ddechrau trafod y bwriad gyda phobl eraill. Os sefydlwyd pwyllgor, pwy oedd yr aelodau cynta, tybed? Pryd y dechreuwyd chwarae? Ymhle'r oedd y maes golff? A oedd yno 'dŷ clwb'? Am ba hyd y parodd y Clwb? Pryd a sut y daeth i ben? Cwestiynau, cwestiynau, cwestiynau?

Ond a oes gen i atebion? Yr ateb syml ydi 'Nac oes!'. Ond rhag bod yn gwbl negyddol, gallaf awgrymu mai rywdro yn y 1930au y sefydlwyd y clwb golff ar dir i'r de o ffarm Dolawen a hynny bron gyferbyn â Thynymaes. Ac, yn bwysicach na dim, mae gen i dystiolaeth ddiddorol sy'n profi bod Clwb Golff Nant Ffrangcon wedi bodoli go ddifri!

Ymhlith fy nghasgliad o ddeunyddiau lleol, mae llyfryn bychan, 4 wrth 5 modfedd o ran maint, efo clawr pinc gola', yn dwyn y teitl uchod, ac wedi ei gyhoeddi gan 'J. F. Williams, Printer, Bethesda'. Un gair sydd yn deitl iddo, sef 'Rules'. Mae'n cynnwys 29 o reolau ar chwe thudalen o brint eithaf mân. Fel y byddwch wedi dyfalu, mae'n debyg, Saesneg yn unig ydi iaith y llyfryn bach pwysig – a phrin – hwn.

Hoffwn ddyfynnu ambell un o'r rheolau ond gadawaf hynny tan y rhifyn nesaf. Gan fy mod wedi dechrau'r ysgrif hon drwy godi cwestiynau, waeth i mi orffen ddim yn yr un modd. A oes unrhyw un o ddarllenwyr *Llais Ogwan* yn gallu taflu rhywfaint o oleuni ar hanes y *Nant Ffrangcon Golf Club*? Pe gallai unrhyw un ateb un neu ragor o'r cwestiynau a godais uchod, byddwn yn falch o gael gwybodaeth drwy ebost neu lythyr neu dros y ffôn (670 517). Gorau oll, wrth gwrs, pe bai rhywun wedi bod yn yr Archifdy yng Nghaernarfon yn chwilota drwy bapurau-newydd lleol y 1930au (neu'n gwneud hynny yn y Stac yn y Brifysgol ym Mangor) a chael hyd i hanes a fyddai o ddiddordeb i ni i gyd. Edrychaf ymlaen at gael cyhoeddi yn *Llais Ogwan* mis Chwefror unrhyw wybodaeth berthnasol a dderbyniaf.

*I'w barhau*

Cefnogaeth dydd ar gyfer unigolion sydd yn byw efo dementia cyfnod cynnar i ganolig. Ceir y gwasanaeth hwn ei gynnal yng nghartref galluogwyr y Cynllun am dal. Derbynnir ceisiadau trwy wasanaethau Oedolion, Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu Gwynedd a Môn. Rydym yn chwilio am alluogwyr newydd i ddarparu y gwasnaeth yma.

Galwch Draw

Cysylltwch â Medi Griffiths am fwy o wybodaeth.

Cyfeiriad: Cynllun Cysylltu Bywydau, Swyddfa'r Cyngor, Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5AA

Ffôn: 01758 704144

Lleoli.oedolion@gwynedd.llyw.cymru

Cyngor Gwynedd Council

Cyngor Sir Ynys Môn Isle of Anglesey County Council

Contractwyr Trydanol

Jones & Whitehead Cyf

Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU

Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982

E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

ECA CHAS

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd.

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk

Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)

CITB

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor,
Gwynedd LL57 4AY

UNIPART CAR CARE CENTRE

# Bethesda

**Mary Jones**, maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642
**Joe Hughes**, Awel y Nant, Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

**Eglwys Crist, Glanogwen**
*Gwasanaethau*
Pob Bore Sul: Cymun Bendigaid Corawl am 11yb
Pob bore Mercher: Gwasanaeth Cymun byr am 10.30yb, ac i ddilyn, paned a sgwrs hwyliog.
Croeso cynnes i bawb i'r holl wasanaethau.

*Te Nadolig*
Cynhaliwyd Te Nadolig ar brynhawn Gwener, Rhagfyr 7fed, yng ngwesty'r Douglas. Cafwyd prynhawn hwyliog iawn a gwnaethpwyd elw sylweddol i goffrau'r eglwys.

Diolchwn yn fawr iawn am y rhoddion, yr help a'r gefnogaeth ar y diwrnod, a gobeithiwn weld hwn yn ddigwyddiad blynyddol.

*Ysgol Dyffryn Ogwen*
Braf oedd cael croesawu disgyblion yr ysgol i gynnal eu Gwasanaeth Nadolig yn yr eglwys nos Lun, Rhagfyr 17eg.

*Profedigaeth*
Fel mae'r Llais yn mynd i'r wasg, daeth y newyddion trist iawn am golli un o aelodau ffyddlon, ffraeth ac annwyl Eglwys Glanogwen, sef Mr. Gilbert Bowen. Mae'n golled enfawr i'r eglwys yn ogystal â'r teulu, ac mae'n cydymdeimlad yn ddwys a diffuant i Gwenda a'r teulu yn eu profedigaeth lem.

**Penblwydd Arbennig**
Llongyfarchiadau i Carol Thomas, 33 Abercaseg, a fu'n dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar y 15fed o Ragfyr. Oddi wrth y teulu i gyd!

**Llwyddiant Cerddorol**
Llongyfarchiadau i Danial Roberts, 16 Glanogwen, ar lwyddo yn ei arholiad theori cerddoriaeth, Gradd 2, yn ddiweddar. Hyfforddir Danial gan Gerwyn Llwyd, Maes y Garnedd, a threfnwyr yr arholiad oedd Bwrdd Cysylltiol yr Ysgolion Cerdd Brenhinol.

**Ysbyty**
Cofion a gwellhad buan at bawb a fu yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dyma'r rhai a ddaeth i sylw gohebydd y Llais:
Mrs. Jennie Jones, Bryn Caseg, a'i hwyres, Lowri; Mr. Huw Williams a Mrs. Margaret Williams, Erw Las; Mrs. Helen Griffith, Adwy'r Nant; Mrs. Elsie Evans, Garneddwen; Mr. Carl Evans, Hafan.

**Gwasanaeth Nadolig Ysgol Dyffryn Ogwen**
Cynhaliwyd Gwasanaeth Nadolig Ysgol Dyffryn Ogwen yn Eglwys Crist Glanogwen ar nos Lun 17eg Rhagfyr. Wedi gair o groeso gan y Prifathro, Mr. Dylan Davies, cafwyd rhaglen arbennig gan y disgyblion, yn ddarlleniadau, unawdau, unawd telyn, grŵp gitâr a grŵp llinynnau. Cyflwynwyd eitemau gan dri chôr, sef côr blwyddyn 7, côr blwyddyn 8 a chôr yr ysgol. Da iawn chi i gyd am waith rhagorol a diolch i bawb fu'n eich hyfforddi. Braf oedd gweld yr Eglwys yn llawn! Daeth y gwasanaeth i ben gyda cyhoeddi'r fendith gan y ficer, y Parchedig John Mathews.

Diolch hefyd i ddisgyblion cwrs Lletygarwch ac Arlwyo am eu croeso, ac am y Te Nadolig ardderchog a gafwyd brynhawn Mercher, 12 Rhagfyr. Diolch i Mrs. Ceri Ogwen Jones am y gwahoddiad ac am drefnu'r te! Mwynhawyd y te a'r adloniant gan bawb.

**Cydymdeimlo**
Bu sawl teulu mewn profedigaeth yn ddiweddar, ac 'rydym yn anfon ein cydymdeimlad atynt i gyd:-

Mrs. Gwenno Evans a Nia, Ffordd Coedmor. Dwy brofedigaeth wedi dod i'w rhan, sef colli Mrs. Dwynwen Rowlands, Plas Ogwen (Bangor gynt), a Miss. Dilys Jones, Bangor Uchaf.

Mr. a Mrs. Neville Hughes, Pant, a Mrs. Iris Harper, Llandygai, yn eu profedigaeth o golli Mrs. Ann Williams, Y Fron, ger Carmel.

Mr. a Mrs. Gareth Lewis a'r teulu, Pantglas. Wedi colli brawd yng nghyfraith, sef Mr. Richard Thomas, Llanfairpwll (Plas Ogwen gynt). Cofion a chydymdeimlad at ei briod, Mrs. Wendy Thomas a'r teulu.

Mr. a Mrs. Bill Jones a'r teulu, Glanffrydlas, wedi i Marilyn golli ei brawd, Mr. Gilbert Bowen yn y Gerlan ar 2il Ionawr.

**Marwolaeth**
*Kenneth Williams*
Bu farw Mr. Kenneth Williams (Ken), 12 Llys Dylan, gynt o 19 Glanogwen, yn 84 mlwydd oed.' Roedd yn fab i'r diweddar Mr. a Mrs. Frank Williams, Glanogwen, ac yn frawd i'r diweddar Mr. Bryn Williams (Bowie) a brawd yng nghyfraith i Mrs. Muriel Williams, Bangor. Bu'r gwasanaeth ddydd ei angladd yng Nghapel Carmel a Mynwent Coetmor ar 12fed Rhagfyr. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.

*Mrs. Hilda Howell*
Yn sydyn, ar ddydd Sul, 9fed Rhagfyr, bu farw Mrs. Hilda Howell, 24 Ffordd Ffrydlas yn 89 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Mr. Denis Howell a mam garedig a hoffus i Sandra a Graham, a nain annwyl i Grant. Gwraig dawel a hoffus oedd Mrs. Howell, bob amser yn barod i roi pan fyddai rhywun yn galw i gasglu at achos da! Bu ei hangladd ddydd Mercher, 19eg Rhagfyr, gyda gwasanaeth ar lan y bedd ym Mynwent Eglwys y Santes Anne, Mynydd Llandygai, yng ngofal y Parchedig John Mathews. Cydymdeimlwn â chwi i gyd fel teulu yn eich colled.

*Mrs. Margaret Jones*
Yn Ysbyty Gwynedd ar 1af Ionawr, bu farw Mrs. Margaret Jones (Peggy), 9 Llain y Pebyll, yn 84 mlwydd oed. Priod y diweddar Mr. Rees Jones, a mam annwyl a charedig i'w phlant. Cynhaliwyd yr angladd ar ddydd Mawrth, 8fed o Ionawr, gyda'r gwasanaeth yn Eglwys a Mynwent Coetmor. Gwasanaethwyd gan y Parchedig John Mathews. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch i gyd.

**Gorffwysfan, Stryd Fawr**
Ar ddydd Gwener, 14eg o Ragfyr, aeth yr aelodau a chyfeillion i Landudno am goffi a sesiwn o siopa cyn troi am Glwb Rygbi Bangor i gael cinio Nadolig ardderchog wedi ei baratoi gan Mrs. Sandra Owen a'r staff. Diolchwyd i Sandra, Beryl a'r staff am y croeso a'r cinio gan ein cadeirydd, Mrs. Rhiannon Efans. Ar ôl cinio cafwyd raffl wedi ei threfnu gan Vernon. Diolch iddo a phawb oedd wedi dod a gwobr.

Cofiwch am Bwyllgor Gorffwysfan a gynhelir ar fore Llun, 4ydd Chwefror am 11.00yb. Croeso i'r holl aelodau.

Cydymdeimlwn â sawl aelod a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar, sef teulu'r ddiweddar Mrs. Sheila Parry, Caernarfon; Mrs. Ogwena Redfern a'r teulu, wedi colli priod a thad a thaid annwyl; Mr. a Mrs. Bill Jones a'r teulu, Glanffrydlas, wedi colli brawd a brawd yng nghyfraith, sef Mr. Gilbert Bowen, Gerlan.

Colled fawr i Glwb Gorffwysfan oedd colli aelod mor ffyddlon â Mr. Gilbert Bowen ar 2il o Ionawr. Rydym yn anfon ein cydymdeimlad dwysaf at ei briod, Mrs. Gwenda Bowen, y plant, Roslyn ac Andrew a'i ŵyr, Steffan, a'r teulu i gyd.

**Diolch**
Dymuna teulu'r ddiweddar Mrs. Hilda

Howell, Ffordd Ffrydlas, ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd, eu cardiau a'u rhoddion tuag at Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru. Diolch i bawb, oddi wrth Sandra, Graham a Grant.

Dymuna Carol Thomas, 33 Abercaseg, ddiolch o galon i'r teulu a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn 70 oed ar 15fed o Ragfyr. Diolch hefyd am y cinio penblwydd yn Y Llangollen, Bethesda.

**Ennill Gradd Doethuriaeth**

Mae Amanda Ball sydd yn un o 'blant Y Douglas Arms' ac yn chwaer i Christine syddyn cadw'r lle rŵan wedi cael gradd doethuriaeth o Brifysgol Phoenix, Arizona. Teitl ei gwaith ymchwil oedd, "Y berthynas rhwng hyfforddiant arweinyddiaeth a gwerthiant tai yng Ngogledd Carolina". Bellach mae Amanda yn Dr Ball. Mae hi a'i gwr Ed, sy'n Americanwr, yn byw yn nhalaith Gogledd Carolina ers 20 mlynedd. Braf yw cael adrodd am hynt un o blant y dyffryn.

**EISTEDDFOD DYFFRYN OGWEN**

*Eisteddfod Dyffryn Ogwen yn denu cystadleuwyr o bell ac agos*

Dyma hanes un o'r enillwyr yn yr Adran Ffotograffiaeth Agored, sef Siân Boase, merch bymtheg oed o Seland Newydd. Pan oedd Siân ar ei gwyliau efo'i Nain a'i Thaid, Dennis a Ceri Dart, Rhos y Nant, Haf 2017, fe dynnodd Siân luniau o Fro Ogwen gyda'r afon ar ei thaith drwy'r dyffryn tuag at Fethesda, gan eu danfon drosodd i'w rhoi yn y gystadleuaeth eleni. Llwyddodd Siân i ennill y wobr gyntaf, ac roedd hyn yn 'hat-trick' iddi, gan iddi gael ei dewis yn un o dri yn ei hysgol i dynnu lluniau o'r ardal lle mae hi'n byw yn Seland Newydd. Cafodd ei lluniau eu harddangos yn swyddfa dwristiaeth y pentref, a dewiswyd un ohonynt i fod yn rhan o galendr y pentref. Hyn i gyd yn yr un wythnos a hithau yng nghanol ei harholiadau cyfwerth a TGAU. Llongyfarchiadau mawr i ti Siân.

**Brian Lustmord**



*Brian Williams (ar y chwith) a Rhys Jones*

Mae'n debyg mai fel Brian Williams y bydd y rhan fwyaf ohonoch yn adnabod y gŵr yma, sef mab Jackie ac Eirwen Williams, Glan Ffrydlas. Cerddor yw Brian sydd bellach yn byw yn Los Angeles ble mae'n cynhyrchu ei gerddoriaeth drwy ddefnyddio synthesiser. Gwaith arbenigol ac arbrofol sydd ganddo.

Mae ei waith wedi ei ddefnyddio mewn ffilmiau ac ar ddydd Sul, Tachwedd 25ain roedd dangosiad o ffilm yn cynnwys ei waith yn Pontio, Bangor. Wedyn cafwyd sesiwn o holi ac ateb. Gyda'r nos roedd yn perfformio ei waith. Os ewch ar Google neu Wikepedia cewch ei hanes yno. Braf ei fod wedi cael dod a'i waith yn ôl i'w ardal.

**Yr Eglwys Unedig (Capel Jeriwsalem)**

*Nadolig*

Cafwyd Gwasanaeth hyfryd gan blant yr ysgol Sul, a chynulleidfa dda i'w gefnogi. 'Roedd pawb wedi chwarae eu rhannau yn ardderchog, a phawb wedi mwynhau. Diolch i Lowri a Menai a'r tîm am eu hyfforddi, ac yn ogystal i Alwena a fu'n brysur iawn cyn hynny yn trefnu anrhegion i'r plant yn barod. Cafwyd parti ardderchog ac ymweliad arbennig gan Siôn Corn, a gyflwynodd anrheg i bob un o'r plant. Diolch Siôn Corn, a diolch i'r merched a baratodd y parti a lluniaeth i'r oedolion oedd yno.

Cynhaliwyd cyfarfod Nadoligaidd yn y gymdeithas, gydag aelodau o'r tair Eglwys – Bethel, Carmel a Jerusalem – yn cymryd rhan. Diolchwyd i bawb gan y Llywydd, Joe Hughes, a diolch arbennig i Winnie a'r merched am y banad a'r mins peis.

*Gwasanaeth Nadolig Cymunedol*

Dymuna Menai Williams ddiolch o galon i'r canlynol am gymryd rhan yn y gwasanaeth**:** Linda Brown, Dylan Davies, Frances Davies, Owain Arwel Davies, Neville Hughes, Thalia Lichtenstein, Angharad Llwyd, John Ogwen, Hywel Parry, Beti Rhys, Gwydion Rhys, Lowri Roberts, Andrew Thomas, Nerys Williams, Côr y Dyffryn, Côr y Penrhyn, Côr Ysgol Dyffryn Ogwen ac Adran Bentref yr Urdd, Dyffryn Ogwen.

Diolch hefyd i'r gynulleidfa deilwng am eu presenoldeb, a'u cefnogaeth arferol - casglwyd y swm anrhydeddus o £350.00 tuag at argyfwng Yemen.

*Gwellhad Buan*

Hoffant ddymuno gwellhad buan i Mrs. Jennie Jones, Bryn Caseg, a Mrs. Elina Owen, Wernos, wedi i'r ddwy dreulio cyfnod yn yr Ysbyty yn ddiweddar. Brysiwch wella.

**Cyhoeddiadau**

*Ionawr*

20fed: Yr Athro G Ll Jones (10yb) a Mr. D. Pritchard (5yh)

27ain: Mr. Alun Merton

*Chwefror*

3ydd: Parchg. Athro J. Evans (10yb) a Mr. J. Jones (5yh)

10fed: Parchg. Cledwyn Williams

Mae croeso mawr i bawb ymuno â ni yn ein gwasanaethau a'n cyfarfodydd.

# Cymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen

Dyma lun o'r ddau wron a fu'n gyfrifol am y noson ddifyr a diddorol yng nghyfarfod mis Rhagfyr o'r Gymdeithas. Cawsom ein harwain ar daith ar hyd y Lôn Las drwy gyfrwng llais a llun. Arwyn Oliver (ar y dde)
oedd y llais a Now Jones oedd y technegydd lluniau. Diolch yn fawr hogia!



**Elwyn Jones & Co**
hefyd yn masnachu fel
Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
- Cyfreithwyr -
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224
*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*
*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106* *Porthaethwy (01248) 719517* *Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616* *Pwllheli (01758) 703000)*

**JOHN ROBERTS**

Paentiwr
Papurwr
Teilsiwr
Symudol: 07747 628650
Ffôn: 01248 600995

**Gareth Williams**
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

BYSUS
D. P. Owens
RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195

BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

# Nyth Y Gân

**Ffon Gerdded**
Bu'n tyfu am hir ger yr afon,
Un fain a phur dal ydoedd hi,
Fe'i gwelid hi weithiau yn taflu
Ei chysgod ar wyneb y lli.

Roedd lwyfan i lawer o adar
I lanio mor rhwydd ar ei brig
Gan dwtio eu plu yn ofalus
A hynny â blaen main eu pig.

Wynebai bob tymor drwy'r flwyddyn
Gan blygu ac ysgwyd ei phen,
A hardd oedd y gamp o wneud hynny
Oherwydd ystwythder ei phren.

Â gofal fe'i torrwyd un diwrnod,
Mis Tachwedd oedd hi'n digwydd bod,
A'i chludo a gafodd â balchder
Cyn i'r oerwynt a'r eira ddod.

Yn gorwedd am gyfnod mewn gweithdy
Mor llonydd a marwaidd ei llun
Yn aros i'r gyllell ei naddu
Dan ddwylo pur fedrus y dyn.

Ei naddu a'i siapio a gafodd
Yn bwyllog dan ddwy lygad graff
A'i gosod i orwedd yn ddiogel
O'i rhwymo yn dynn gyda rhaff.

A heddiw mae hi'n dal i ysgwyd
Yn llaw'r crynedig hen ŵr
Mor bell o olwg y goedwig,
Mor bell o olwg y dŵr.

**Cofio Cyfoedion**
O adref y mae'n crwydro, – a'i feddwl
Mor fuddiol drwy'i henfro
Yn cyfarch ac yn cofio
Yno rai o'i amser o.

**Mamau Yemen**
Heddiw clywsom newyddion, – a hanes
Am rieni tlodion
Yn rhannu ar eu hunion
Yno'u siâr yn ôl y sôn.

**Yr Iesu**
Bu'n wylo'n erbyn waliau – o wybod
Am aberth croesbrennau;
Yna daeth a'i roi rhwng dau,
Ymledodd ein teimladau.

*Dafydd Morris*

**Gaeafnos Dawel**
Yr awel mewn dawelwch, – a llewyrch
Y lleuad yn dristwch;
Y drum dan farrug yn drwch
Yn llawn hedd a llonyddwch.

**Robin Goch**
Celyn fel gwaed yn ceulo – a roddodd
Y lliw rhudd sydd arno,
A'r staen sydd ar ei frest o
Yn dân â'i fflam amdano.

**Y Gaeaf**
Y nwyd sy'n ddiflanedig – o wreiddiau
Ireiddwych y goedwig;
Difwynir hud afonig
A brau yw bysedd y brig.

**Y Gigfran**
Aderyn y glyn a'r glog – yn hedfan
I'w hadfail esgyrniog;
Llygad draig ar y graig grog
Yn bwydo gyda bidog.

*Goronwy Wyn Owen*

# Chwaraeon


**Dominos**

Pump tîm sydd yn perthyn i Gynghrair Dominos Bethesda eleni. Bu chwarae caled yn ystod hanner cyntaf y tymor a cychwynnodd yr ail hanner ar Nos Fawrth, Ionawr 4ydd, wedi toriad dros y Nadolig.

Ar ddiwedd yr hanner cyntaf mae tîm Bryn Evans, Bull B ar y brig gyda 8 pwynt ar ôl chwarae chwe gêm. Yn rhannu y brig mae Bull A dan gapteniaeth Bob Temple, hwythau gyda wyth pwynt o chwe gêm. Mae'r Clwb Criced yn dynn ar eu sodlau gydag wyth pwynt ar ôl saith gêm.

Mae tîm y Royal Oak yn addo gwella' yn yr ail hanner, hwythau gyda chwe phwynt wedi saith gêm. Y Kings Head yw'r tîm cryfaf yn y gynghrair ar hyn o bryd gyda dau bwynt wedi chwe gêm. Mae Dewi Roberts o'r Clwb Criced wedi mwynhau hanner cyntaf ardderchog gan ennill ei saith gêm gyntaf, a Dafydd Gwilym wedi ennill pum gêm allan o'r chwech mae o wedi chwarae wrth gynrychioli y Kings Head.

# Croesair Llais Ogwan



**AR DRAWS**

1 Ni ellir mynd yn is na hyn (7)
5 Mae un i'r cythraul, i gariad ac un ddolen i'ch clymu'n dynn (5)
8 Dyma oglau'r cwbl ar lafar (5)
9 Mae'r brawd o'r gwely yn nôl ei ddillad yma, ....... (7)
10 ....... a dyma a wnaeth wedi eu cael (7)
11 Mae'r ddawns am barhau o hyd yn Brasil (5)
12 Genau-goeg (6)
14 Mi ddoist ti a phawb at ei gilydd, yn gryno a chytûn (6)
17 Pedr a ----- ei Arglwydd deirgwaith (5)
19 Cerdd fwyaf adnabyddus Dewi Emrys, a man ei gofeb (7)
22 I ddisgrifio tywydd y tymor oer (7)
23 Mor hir (5)
24 Aiff yr wyneb di-wên yn hapus wrth droi yn ôl (5)
25 'Clapio a chymeradwyo' – canmol --- ---- dwylo (3,4)

**I LAWR**

1 Mae un yn Llandysul, Talybont a Llanrwst (5)
2 Gweithred mewn capel neu eglwys (7)
3 Lliw neu blanhigyn (5)
4 Gorffen, bennu, darfod (6)
5 Oel lamp neu baraffîn i'r Americanwr (7)
6 Mewn sŵn uchel mawr mae hwn yn siwr o'ch deffro (5)
7 Swnio fel hogyn i Dewi y gŵr da, ond y tad ei hun ydyw (7)
12 Emyn o addoliad a gorfoledd (7)
13 Cartref Bontnewydd a agorwyd yn 1902 i blant fel hyn (7)
15 Diraddio a gwneud i edrych yn wael (7)
16 Y Diwedd, mewn drama theatrig neu addoliad eglwysig (6)
18 Un anhysbys (5)
20 Mangre (5)
21 Mae odl ynghanol y dull yma o ganu yn y Swisdir (5)

**ATEBION CROESAIR RHAGFYR 2018**

**AR DRAWS** 1 Aiff, 3 Awdl, 7 Pleidiol, 8 Taffi, 9 Cydymffurfio, 11 Sarrug, 13 Caledu, 14 Mewn Carafan, 17 Enoc, 19 Caergybi, 20 Acen, 21 Uwd
**I LAWR** 1 Anlwc, 2 Ffrind Triw, 3 Act, 4 Deffroad, 5 Dirmyg, 6 Plâu, 10 Fel Y Fagddu, 12 Almanac, 13 Carreg, 15 Cwcw, 16 Nabod, 18 Cŵn

Dechrau da i'r flwyddyn newydd, – dim un camgymeriad yng nghroesair olaf 2018!

Y canlynol yw'r rhai lwyddodd i gwblhau'r croesair yn hollol gywir: Myra E. Evans, Niwbwrch; Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Iona Williams, Llanddulas; Dilys Parry, Rhiwlas; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Dilys W. Griffith, Abergele; Gareth William Jones, Bow Street; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Gaynor Elis-Williams, Rita Bullock, Bethesda; John H. Evans, Llanberis; Doris Shaw, Bangor; David T. Hughes, Cyffordd Llandudno.

Yn fuddugol y tro hwn y mae ymgais Doris Shaw, 26 Llwyn Hudol, Bangor, Gwynedd LL57 1SG.

Llongyfarchiadau calonnog i chi.

Atebion i gyrraedd erbyn 1af Chwefror, 2019 ***fan bellaf*** i 'Croesair Ionawr', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD.

**Atebion erbyn 1af Chwefror i 'Croesair Ionawr'**
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

Enw

........................................

Cyfeiriad

........................................

........................................

........................................

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont
☎ 353500

**Cychwyn ar nodyn trist**.
Wrth inni groesawu'r Flwyddyn Newydd, cofiwn am drigolion ardal Talybont a fu mewn profedigaeth yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Margaret Jones, 74 Bro Emrys a gollodd ei chwaer, Bessie, o'r Gerlan, ar ddechrau mis Rhagfyr.

Mae'n cydymdeimlad yr un mor ddiffuant â Gavin, 65 Bro Emrys. Bu farw ei fam, Brenda Purcell, Glan Menai, Treborth, ar Rhagfyr 9fed. Byddai'n dod â Gavin, a'i frawd hŷn, Martin, atom i Ysgol Faenol amser maith yn ôl.

Ar ddiwedd y flwyddyn, buom yn ffarwelio â dau o hen athrawon y Faenol o gyfnod yr hogiau, sef y diweddar Miss Dilys Jones, Bangor Uchaf, a'r Cyn Bennaeth, Mr. Geraint Huws Roberts. Coffa da amdanynt.

Mae Amanda, Arnold a'r teulu, 8 Cae Gwigin, wedi colli tad, taid a hen daid annwyl iawn. Bu farw Brian Redfern o flaen y Nadolig, yn dilyn gwaeledd hir a ddioddefodd yn ddewr a di-gwyno. Roedd Brian yn gymeradwy gan bawb a'i adnabu, a gedir bwlch mawr ar ei ôl ymysg ei deulu, a'i lu o ffrindiau. Cydymdeimlwn â'i weddw, Ogwena; ei chwaer, Sheila, Millbank, Dol Helyg, a'r teulu oll yn eu hiraeth.

**Anffawd**
Mae Rita Thomas, Bryn Celyn, wedi torri ei ffêr. Brysia wella, Rita! Gobeithio 'fydd hi ddim yn hir nes y byddi'n rhydd o bob cloffrwm, ac yn cael gyrru unwaith eto.

**Dathlu**
Llongyfarchiadau cynhesaf i Matthew, mab hynaf Dave a Wendy Smith, 47 Bro Emrys, ar ei ddyweddïad â Beth, o Walchmai, tra ar eu gwyliau yn Efrog Newydd y mis diwethaf; lleoliad hudolus iawn, wir! Dymunwn bob dedwyddwch i'r ddau ohonynt.

Llongyfarchiadau yr un mor wresog i Cai, brawd Matthew, sydd newydd ddathlu ei benblwydd yn ddeunaw oed. Pob bendith arnoch i gyd i'r dyfodol.

**Babi newydd**
Ar ddechrau'r mis diwethaf daeth Tanya a Stuart Thompson, 2 Bro Emrys, yn Nain a Thaid am y tro cyntaf, pan anwyd mab bach, Arthur William, i'w merch Charlotte a Gareth, bellach o Rhiwlas. Llongyfarchiadau; a phob bendith i Arthur bach a'r teulu i gyd.

**Croeso**
Croeso cynnes i Jason Hughes, ei gymar, Alice, a'r plant i rif 5 Cae Gwigin; hogyn arall a fagwyd yn y pentref wedi dod adref! Gobeithio bydd y teulu bach yn hapus iawn yn y Sgwâr. Bydd ganddynt ddigon o blant i chwarae efo nhw, beth bynnag.

**Cadw'n iach**
Mae Caleb Roberts, deg oed, o 6 Bro Emrys, yn cael pleser mawr wrth ymuno yn y ' Park Run', o gwmpas Parc y Penrhyn.
Deallwn mai'r nôd yw gwella'ch amser personol dros 5 km, yn hytrach na chystadlu yn erbyn rhedwyr eraill; rhywbeth mae Caleb yn llwyddo i wneud yn gyson. Da iawn chdi, Caleb. Dalia ati!
Hwyrach y byddai'n syniad da inni fynd i'r Parc ryw fore Sadwrn i drio, ond mae arna'i ofn bod hi'n o hwyr erbyn hyn. Bydd rhaid ystyried ffordd fwynach o gadw'n heini yn ystod 2019.

**Gwerthfawrogiad**
Cafodd Julian Johnson, 9 Bro Emrys, ei synnu'n fawr cyn y Nadolig, pan dderbyniodd hamper swmpus, a rhodd o arian, gan ei gymdogion ym Mro Emrys, yn werthfawrogiad o'i ymdrechion gwirfoddol i gadw Talybont fel pin mewn papur.

Bydd Julian yn mynd o gwmpas y pentref drwy'r flwyddyn, yn dawel a di-rodres, gan godi papurau yma ac acw; torri gwair, neu dacluso a thrwsio, lle bynnag y bo angen.

Ffordd arall o ddangos ein gwerthfawrogiad o'i waith caled fyddai i bob un ohonom, yn hen ac yn ifanc, ddilyn ei esiampl, a thacluso'r ardal o gwmpas ein lle ni'n hunain. Wedyn, 'fasa'r un pecyn bwyd parod, yr un gwelltyn plastig na chan diod ar y llawr, nac yn y clawdd yn unman. Gwyddom y plesiai hynny Julian yn fawr iawn, ac mi wellai olwg y pentref dros nos.

**Eglwys St Cross, Maes-y-Groes**
*Cydymdeimlo*
Anfonwn ein cydymdeimlad at Sheila Owen, Millbank, ac at ei nith Amanda, Cae Gwigin, a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli brawd a thad, Brian Redfern, ychydig o ddyddiau cyn y Nadolig ar ôl salwch difrifol.

*Diolch*
Cynhaliwyd ein gwasanaeth carolau ar y Sul cyn y Nadolig. Ar ddiwedd y gwasanaeth, aeth pawb i Ysgoldy Maes-y-Groes ar gyfer gweddïau, darlleniad a charol i ddathlu 150 mlwyddiant yr adeilad hwnnw. Eglwys y plwyf, Eglwys St Daniel oedd yr adeilad ym 1868, cyn i St Cross gael ei hadeiladu a'i chysegru ym 1892. Diolch i'r Parchedig John Matthews am ein harwain yn y gwasanaeth, i Sue Matthews am y gacen penblwydd, ac i Gwen a Myrddyn Hughes am baratoi gwledd o fins peis a gwin twym.

**Capel Bethlehem**
*Oedfaon*
Ionawr 20: Parchg. John Lewis Jones.
Ionawr 27: Gweinidog.
Chwefror 3: Parchg. Ddr. Geraint Tudur.
Chwefror 10: Gweinidog.
Chwefror 17: Parchg. Eric Jones.
Chwefror 24: Gweinidog.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

*Oedfa Nadolig Deuluol*
Daeth nifer dda ynghyd ar bnawn Sul, 16 Rhagfyr, i ddathlu'r Nadolig yng nghwmni plant yr Ysgol Sul. Diolch i'n gweinidog, y Parchedig John Pritchard am ddod atom o ganol prysurdeb y tymor. Diolch i Mrs. Barbara Jones (Anti Barbara) am drefnu'r gwasanaeth ac i bawb arall am eu cymorth. Ar y diwedd aeth pawb drwodd i'r festri i fwynhau panad a mins pei – a te parti i'r plant wrth gwrs. Gwnaed casgliad o £120.00 tuag at Gymorth Cristnogol. Diolch i bawb am eu cefnogaeth!

*Ysbyty*
Wedi iddi dreulio wythnosau lawer yn Ysbyty Gwynedd, mae Mrs. Eirlys Ellis

CSL
GWASANAETHAU CYNORTHWYO FFERM
Ydych chi angen cymorth gyda'r canlynol?
- Gwasanaethau ar-lein RPW (gan gynnwys SAF, Rheoli Fy Nhir a Rheoli Fy CPH),
- Prosiect Meincnodi Cig Coch,
- Dyddiaduron Stocio a Gweithgaredd,
- Gweinyddiaeth cynlluniau Glastir,
- Gweinyddiaeth Grant Busnes i Ffermydd.

Ffôn: 07523174888,
E-bost: admin@cslfarm.com,
Ein gwefan: www.cslfarm.com

erbyn hyn yn gwella yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Anfonwn ein cofion gorau ati o'r capel, gan ddymuno blwyddyn newydd well iddi. Cofion hefyd at Miss Dilys Williams a fu yn yr ysbyty am noson.

*Cydymdeimlo*
Ar Ŵyl Sant Steffan, bu farw Cledwyn Jones o'r Groeslon, tad Gwyneth Roberts, Fferm Cochwillan. Brwydrai'n dawel ac yn ddewr yn erbyn afiechyd blin am rai blynyddoedd ond, gyda gofal tyner ei deulu, fe lwyddodd i fyw yn annibynnol hyd y diwedd.

Yr oedd yn grefftwr hynod o fedrus. Bydd selogion Sioe Dyffryn Ogwen yn cofio'r ffyn hardd a gerfiai, ymysg llawer o bethau eraill.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Gwyneth, Wil, Hafwen, Gethin ac Enfys , a'r teulu i gyd, yn eu colled drist.

# Straeon Rygbi Ar Radio Cymru

Wrth i Raglen Ifan Evans edrych ymlaen at Bencampwriaeth y Chwe Gwlad, mae gan bob ardal yng Nghymru ei straeon unigryw sy'n ymwneud â chefnogi'r tîm cenedlaethol. Straeon am aberth unigolion i sicrhau tocynnau i gêm, straeon am deithiau drwy stormydd enbyd er mwyn cefnogi eu gwlad, straeon lliwgar am dripiau i'r Alban, Iwerddon, Ffrainc ac yn y blaen, a chyfeillgarwch oes gyda unigolion ar draws rhai o'r gwledydd hynny.

Mae Ifan Evans am glywed eich straeon **CHI** dros gyfnod y 6 Gwlad. Straeon doniol, dwys, lliwgar, hynod. Straeon sy'n profi mai cefnogwyr rygbi Cymru yw'r rhai mwyaf angerddol, eithafol, ymroddedig a gorau yn y byd!

E-bostiwch eich straeon i ifan@bbc.co.uk

Neu gyrrwch bwt yn y post i...
Rhaglen Ifan Evans
BBC Radio Cymru
Heol y Priordy
Caerfyrddin
SA31 1NE

Cofiwch gynnwys eich henw a'ch rhif ffôn.

"Ogi, ogi, ogi..."!!

## Ysgol Bodfeurig

**Diwali**



Yn ystod y tymor mae dosbarth Idwal wedi bod yn astudio'r ŵyl goleuni Hindwaidd – Diwali. Maent wedi bod yn brysur yn creu lampau Diwali a dysgu am y dathliadau. Uchafbwynt y dathlu oedd diwrnod Diwali lle daeth pawb i'r ysgol mewn dillad lliwgar, cafwyd cyfle i goginio samosas llysiau blasus, addurno eu dwylo gyda phatrymau hardd yn ogystal â digon o amser i ddawnsio. Diolch i Miss Emily am baratoi'r dathliad, cafodd pawb amser bendigedig.

**Cyngor Eco'n ailddefnyddio**
Diolch i'r Cyngor Eco am gynnal arwerthiant llyfrau ail law yn yr ysgol. Bydd yr arian a gasglwyd yn mynd tuag at brosiect sydd ar y gweill yn yr ardal tu allan i'r ysgol. Cadwch lygaid allan yn y flwyddyn newydd am ragor o hanes y prosiect.

**Nadolig yn yr ysgol**
Bu'r cyfnod yn arwain at y Nadolig yn brysur iawn yn yr ysgol. Dechreuwyd gyda chyngherddau arbennig yn y Neuadd Goffa – y sioe eleni oedd 'Y Goeden Fach Hardd'. Perfformiodd pob un o'r plant yn wych gan syfrdanu'r rhieni, teulu a ffrindiau a ddaeth i'n cefnogi.
Yn dilyn y cyngerdd roedd yn amser dathlu gyda phartïon Nadolig yn llawn bwyd, canu, dawnsio a gemau o bob math. Diolch Anti Anwen am baratoi'r bwyd blasus.
Uchafbwynt y dathlu oedd ein hymweliadau i sioeau Nadolig. Aeth plant dosbarth Idwal i Langefni i wylio sioe Cyw. Roedd pawb wedi gwirioni yn gweld eu hoff gymeriadau Cyw yn perfformio ar y llwyfan ac yn canu rhai o'u hoff ganeuon. Bu dosbarth Tryfan ac Ogwen yn ffodus i gael gwylio panto Cinderella yn Llandudno – ffordd wych o ddechrau gwyliau'r Nadolig.

**Entrepreneurs**
Fel rhan o'u gwaith ar Gourmet Byd Eang, mae dosbarth Ogwen wedi bod yn astudio'r defnydd o olew palmwydd mewn bwyd a'i effaith ar gartrefi creaduriaid yn y jyngl. Cafodd pawb eu hysbrydoli gan y gwaith nes eu bod wedi penderfynu creu cwmnïau bisgedi. Penderfynwyd y buasai unrhyw elw a wnaed wrth werthu'r bisgedi yn cael ei ddefnyddio i fabwysiadu orangwtang a unrhyw arian oedd yn weddill yn mynd tuag at waith atgyweirio yn Sw Gaer yn dilyn y tân difrifol yno. 'Roedd y prosiect yn llwyddiant ysgubol a'r dosbarth yn gwneud elw o £95. Da iawn chi entrepreneurs dosbarth Ogwen!



Hoffai pawb yn Ysgol Bodfeurig ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i ddarllenwyr y Llais!

## PANTRI PAT

### Chaat Cyw Iâr

Blasus iawn fel cwrs cyntaf neu fel prif gwrs.

***Cynhwysion***

2-3 brest cyw iâr (wedi eu torri'n giwbiau).
1 llwy de o halen a 3 ewin garlleg.
Olew.
1½ llwy de o goriander (powdwr).
½ llwy de o dyrmerig (saffrwm yr India) (powdwr).
½ llwy de o chilli (powdwr).
1½ llwy fawr o sudd lemwn.
2 lwy fawr o ddail coriander ffres wedi eu malu'n fân.

***Dull***

Golchwch y cig a'i sychu efo papur cegin.
Malwch y garlleg efo'r halen.
Ffriwch y garlleg a'r halen mewn dipyn o olew ar wres isel.
Ychwanegwch y cig, a'i ffrio am 6-8 munud gan ei symud o gwmpas y badell yn gyson.
Cymysgwch y powdrau efo'r cig a'u ffrio am 3-4 munud gan ddal i droi yn aml.
Tynnwch y badell oddi ar y gwres a chymysgwch y sudd a'r dail coriander (sydd wedi eu torri'n fân).

Blasus efo salad ffres, yn oer neu'n boeth – hefyd efo coctels (fel y rhai a ddisgrifiwyd yn y golofn fis Rhagfyr).

I hysbysebu yn **Llais Ogwan,**

**Neville Hughes**
600853
(nev_hughes@btinternet.com)

# CHWILAIR

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | R | O | B | E | R | T | P | E | E | L | A | W | F | H | R | I | E | J | L |
| C | M | B | V | B | M | H | X | N | J | U | I | S | V | H | S | H | E | S | I |
| E | M | G | V | H | A | M | D | E | W | H | U | Z | M | A | X | V | A | T | D |
| G | D | N | A | P | R | A | U | V | Q | U | S | O | F | R | R | P | Y | A | Q |
| R | Z | G | R | H | G | C | U | I | M | W | N | O | Y | O | R | I | N | N | A |
| O | S | Z | U | T | A | F | D | L | X | U | P | W | R | L | H | C | O | L | Q |
| E | E | H | W | E | R | H | O | L | Y | E | E | G | E | D | O | M | R | E | H |
| G | D | E | P | T | E | R | T | E | C | B | B | C | U | W | U | J | E | Y | P |
| D | **W** | **I** | **N** | **S** | **T** | **O** | **N** | **C** | **H** | **U** | **R** | **C** | **H** | **I** | **L** | **L** | M | B | L |
| Y | A | T | M | I | T | J | V | H | V | D | C | B | B | L | F | R | A | A | F |
| O | R | O | G | J | H | A | V | A | I | I | R | R | X | L | I | M | C | L | H |
| L | D | T | T | O | A | M | S | M | K | O | P | W | R | S | C | M | D | D | K |
| L | H | C | B | O | T | N | R | B | C | X | V | R | Y | O | H | S | I | W | T |
| D | E | M | R | E | C | H | F | E | Y | J | D | Z | H | N | B | C | V | I | W |
| I | A | O | S | C | H | O | R | R | A | I | X | N | I | L | X | J | A | N | J |
| V | T | M | B | W | E | J | T | L | E | X | M | D | X | K | F | U | D | P | C |
| A | H | Q | Y | O | R | I | W | I | L | L | I | A | M | P | I | T | T | L | F |
| D | E | R | Z | Q | R | O | C | N | T | D | G | W | S | L | Z | E | B | E | A |
| J | K | R | U | O | F | L | A | B | R | U | H | T | R | A | J | C | L | N | L |
| R | V | O | G | J | P | W | P | G | S | O | W | J | J | Q | U | L | F | S | V |

## Prif Weinidogion Prydain

Yn y chwilair mis yma mae enw DEUDDEG o BRIF WEINIDOGION PRYDAIN i'w darganfod, mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, a.y.y.b yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn IONAWR 29 . Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

NADOLIG LLAWEN oedd yr ateb ychwanegol yn y chwilair mis diwethaf, ac rwyf yn gobeithio eich bod wedi cael amser braf tros yr ŵyl. Yn ôl nifer yr atebion sydd wedi dod i law 'rwyf yn tybio bod llawer ohonoch wedi cael amser da, a efallai wedi anghofio am y Chwilair. (Gormod o ddiod y diafol efallai!!) Prif Weinidogion Prydain yw'r testun y mis yma, o'r 1770 ymlaen i'r presennol, mwynhewch.

**Dyma atebion Tachwedd :-** Anti Elin; Arthur Tan Bryn; Canon; Cêt Rhesi Gwynion; Elwyn Pen Rhes; Em Brawd Now Bach Glo; Harri Bach Clocsia; Jini Bach Pen Cae; Leusa Tŷ Top; Nadolig Llawen; Preis Sgwl; Wmffra Tŷ Top; Yncl Now Moi.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:-** Rosemary Williams, Tregarth; Gwenda Roberts, Ynys Môn; Doris Shaw, Bangor; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Barbara Anne Conlan, Bethesda; Elizabeth Buckley, Tregarth; Elfed Bullock, Bethesda; Helen Jones, Erw Las; Sophie Williams, Braichmelyn.

**Enillydd Rhagfyr oedd:-** Elizabeth Buckley, 32 Maes Ogwen, Tregarth, LL57 4NG

# Plaid Cymru – Cangen Dyffryn Ogwen

Blwyddyn Newydd Dda gan Gangen Plaid Cymru Dyffryn Ogwen. Gyda byd gwleidyddiaeth mor anwadal y dyddiau hyn, anodd yw darogan beth a ddaw yn y misoedd nesaf. Mae neges Blwyddyn Newydd ein harweinydd Adam Price i'w gweld ar wefan Plaid Cymru.

Yr hyn a wyddom ydyw y bydd ein pedwar Cynghorwyr Sir a'n Cynghorwyr Cymuned yn gwneud y gorau dros drigolion y dyffryn yn ystod 2019.

Un o'r achosion sydd ar frig agenda y Cyngh. Rheinallt Puw ydyw diogelwch disgyblion ysgolion Pen-y-bryn ac Abercaseg ar y lonydd o gwmpas y ddwy ysgol. Mae'r trafnidiaeth o gwmpas Pen-y-bryn pan fydd yr ysgol yn cau yn y prynhawn yn ddifrifol iawn ac mae llawer o drafodaethau wedi bod eisoes. Bydd Rheinallt yn trafod gyda phreswylwyr lleol ac yna yn adrodd yn ol i'r Cyngor a gobeithir dechrau ar y gwaith yn ystod y Pasg.

Bydd cyfarfod o bwyllgor busnes y Blaid yn cael ei gynnal yng Nghefnfaes nos Fawrth Ionawr 29ain am 7.00. Cynhelir ein Bore Coffi fore Sadwrn Mawrth 2il yng Nghanolfan Cefnfaes.



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948

**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076


**williamshy@parliament.uk**



**Siân Gwenllian**
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru






Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

**Llais Ogwan**
Dilynwch ni ar trydar

**Sesiynau Siarad i Ddysgwyr**

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**

# Rachub a Llanllechid

**Emlyn Williams**, 13 Hen Barc, Llanllechid, Bangor, LL57 3RS. 01248 605582 a 07887624459 henbarc13@gmail.com

**Capel Carmel**
*Trefn Gwasanaethau*
*am 5.00yp oni nodir yn wahanol.)*

Ionawr 20: Parchg. Ddr. Siôn Aled Owen. (2.00)
Ionawr 27: Gweinidog.
Chwefror 3: Gweinidog (Cymun).
Chwefror 10: Parchg. Dafydd Coetmor Williams.
Chwefror 17: Miss. Nerys Jackson.

Ysgol Sul am 10.30yb.
Clwb Dwylo Prysur bob nos Wener am 6.30yh.
Te Bach. Dydd Llun, Ionawr 28. (2.30 – 4.00yp.)
Croeso cynnes i bawb.

Cofion at bawb o'r aelodau sy'n sâl, gan obeithio y byddwch yn gwella yn fuan iawn.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs. Menai Carson a'r teulu. Llwyn Bedw, yn eu profedigaeth o golli tad Menai, sef y diweddar Mr. Richard Thomas, Llanfairpwll.

**Yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysur**
Cawsom wasanaeth Nadolig hapus iawn gyda'n gilydd yng nghwmni ieuenctid y capel, sef plant yr Ysgol Sul a phobol ifanc Clwb Dwylo Prysur. Thema'r gwasanaeth oedd "Rhannu Cardiau Nadolig". 'Roedd golygfa o bostmon yn dod gyda phecyn mawr o gardiau i'r plant. Wedi i'r plant edrych ar y lluniau oedd ar y cardiau cawsom glywed ychydig am yr ystyr a'r hanes am y goeden Nadolig, y cracer, y gannwyll, y pwdin 'Dolig ac ati. Canodd y plant lleiaf eu carolau yn hyfryd iawn gyda rhai ohonyn nhw yn eu gwisgoedd fel Mair a Joseff a'r angylion. 'Roedd rhai o'r plant mewn siwmperi a hetiau Nadolig. Cawsom oedfa fendithiol a derbyniwyd casgliad sylweddol tuag at waith yr Ysgol Sul. Diolch i'r rhieni, yr aelodau a'r ffrindiau am ddod i gefnogi'r plant a'r bobol ifanc.

**Gwasanaeth Bore'r Nadolig**
Diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r gwasanaeth a chadw'r traddodiad yn fyw. Cawsom ddarlleniadau gan Godfrey Northam, Dilwyn Pritchard, Deri a Cynon Tomos. Canodd Charmaine a Mabon garol bob un yn dlws iawn, a chawsom ddatganiad ar y 'cello' gan Gwydion. Cafwyd clo i'r oedfa gyda gweddi gan Dafydd Coetmor. Diolch i bawb wnaeth gymryd rhan a chanu'r carolau.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Mrs Menai Carson, 6 Llwyn Bedw, a'i theulu, wedi iddi golli ei thad ddiwedd mis Rhagfyr.

**Dyweddïad**
Llongyfarchiadau i Huw Tomos Pritchard, 2 Bron Arfon, ac Angharad Watkins o Lanymddyfri ar eu dyweddiad yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonynt.



**Llunio cardiau Nadolig i'w rhoi o gwmpas y capel oedd gweithgaredd y plant hynaf.**



**Hwyl a miri'r plant yn y parti yn yr Ysgol Sul, ac 'roedd Siôn Corn yno i roi anrheg fach i bob un ohonyn nhw.**

# Y Gerlan

**Caren Brown** Cilwern, 14 Ffordd Gerlan, Bethesda LL57 3ST ☎ 602509 / 07789 916166 carenelaine@hotmail.com

**Heledd Selwyn,** 2 Pen Clwt, Gerlan LL57 3TJ ☎ 01248 208254 / 07880 702640 / heleddselwyn@hotmail.com

**Colled Fawr**
Cafwyd dechrau trist i'r flwyddyn yma yng Ngerlan wrth i ni glywed am farwolaeth Gilbert Bowen, Stryd Hir. Roedd Gilbert yn ŵr bonheddig, uchel ei barch a oedd yn weithgar iawn yn ei gymuned. Bydd colled fawr ar ei ôl a gyrrwn ein cydymdeimladau dwysaf at ei wraig, Gwenda Bowen, a'i blant Rosalind, Andrew a'u teuluoedd.

**Adra o'r Ysbyty**
Bu Lowri Ogwen, Ciltrefnus, yn yr ysbyty am wythnos dros wyliau'r Nadolig. 'Da ni'n falch iawn o glywed ei bod yn gwella ac mae'r teulu wrth ei bodd yn ei chael hi adref.

**Babi Newydd**
Llongyfarchiadau mawr i Gwyn a Emma Griffith, Stryd y Ffynnon, ar enedigaeth eu mab Aeron. Mae pawb wedi gwirioni, yn enwedig Nain a Taid Gerlan - Mair ag Arfon Griffith. Croeso mawr i'r un bach.

**Penblwydd Priodas arbennig**
Ar y 4ydd o Ionawr, bydd Linda a Peter Brown, Gwernydd, yn dathlu 50 mlynedd o fywyd priodasol. Mae'r teulu i gyd yn dymuno'n dda iddynt wrth ddathlu eu priodas aur ac yn edrych ymlaen at ddathlu efo nhw.

**Teithio**
Mi fydd Elin Cain, Ffordd Gerlan, yn codi ei phac unwaith eto. Ar ôl tymor ym mhrifysgol Nantes, Ffrainc, bydd yn cychwyn am brifysgol Barcelona am 2 dymor ddiwedd Ionawr. Pob dymuniad da i ti Elin - welwn ni chdi ym mis Mehefin.

**Caban Gerlan**
Mae'r Caban ar gael i'w logi am bartïon neu gyfarfodydd am bris rhesymol iawn (£10-£20).

Cofiwch fod y Ffermwyr Ifanc yn cwrdd yno bob nos Fawrth a dosbarth Tai Chi (£2, 7yh – 8.30yh) yno bob nos Fercher.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â Caren: 01248 602509 neu 07789916166